



**Adroddiad Monitro
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd
Cymru
i Gomisiynydd Y Gymraeg
am y cyfnod rhwng
1af Ebrill 2012 – 1af Ebrill 2013**

Cynnwys	Tud.
1. Cyflwyniad	3
2. Rheoli a Gweinyddu'r Cynllun	4
3. Cynnydd yn ystod 2012-13	5
4. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg	12
5. Dangosyddion Perfformiad y Gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r Iaith Gymraeg.	18
Atodiad 1 – Cyfathrebiadau Allanol	
Atodiad 2 – Cyfathrebiadau mewnol	
Atodiad 3 – Ffurflen Adrodd yr Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg	

1. Cyflwyniad

Mae'n bleser gennym gyflwyno ein hail Adroddiad Monitro Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg.

Bu newidiadau arwyddocaol a phellgyrhaeddol i fframwaith statudol y Gymraeg dros y flwyddyn ddiwethaf, a chroesawn y pwyslais cynyddol ar godi safonau a sicrhau cysondeb i ddarparu a hyrwyddo'r Gymraeg ar draws Cymru gyfan.

Yn ystod 2012-13 rydym ni fel Gwasanaeth wedi bod yn fwy na pharod i gyfrannu at drafodaethau cenedlaethol mewn perthynas â'r Safonau Iaith Gymraeg arfaethedig ac roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, mewn cydweithrediad â'r ddau wasanaeth tân ac achub yng Nghymru, ymhlith nifer o sefydliadau a gyflwynodd sylwadau yn ystod yr ymgynghoriad cenedlaethol.

Roeddem hefyd yn fwy na pharod i fod yn bresennol yn ystod y cynadleddau niferus a drefnwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Roedd ein Dirprwy Brif Swyddog Tân, sydd yn gyfrifol am bortffolio'r Gymraeg, yn bresennol yn y gynhadledd yng Nghaernarfon ar 7 Mehefin 2012, ac roedd y Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol a'r Swyddog Cyswllt Iaith Gymraeg yn bresennol yn y gynhadledd yng Nghonwy ar 25 Mehefin 2012. Cawsom gyfle i drafod ymhellach gyda chynrychiolwyr o swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn ystod cyfarfodydd i Swyddogion iaith Gymraeg yn Rhuthun ar 5 Gorffennaf 2012.

Roeddem ni fel Gwasanaeth hefyd yn ddiolchgar iawn bod y Comisiynydd wedi derbyn gwahoddiad Grŵp Gorchwyl Strategol y Gymraeg Cymdeithas Prif Ddiffoddwyr Tân (CFOA) Cymru i fod yn bresennol yn ystod un o gyfarfodydd chwarterol y grŵp (12 Gorffennaf 2012) i sôn ymhellach am yr hyn a fyddai'n ddisgwyliedig o sefydliadu cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol.

Er gwaetha'r ansicrwydd a'r newidiadau cadarnhaol ym maes y Gymraeg, nid ydym wedi llasu dwylo yn ystod y deuddeng mis diwethaf. Yr ydym wedi canolbwyntio ar gynnal safonau a gwella ein perfformiad ac rydym wedi parhau i fuddsoddi yn y Gymraeg.

Unwaith yn rhagor, dyma gyfnod lle mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn perthynas â'r Gymraeg.

Mae gennym ni ddelwedd glir o'n gobeithio ni fel Gwasanaeth ar gyfer 2013-14 a thu hwnt ac edrychwn ymlaen at gael cryfhau sefyllfa'r Gymraeg yn ein sefydliad yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Yn y cyfamser, wrth gwrs, ein blaenoriaeth yw cydymffurfio â gofynion ein cynllun iaith Gymraeg cyfredol (2010-2013) a chanolbwyntio ar gynnal safonau a gwella perfformiad.

2. Rheoli a gweinyddu'r Cynllun

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn y Dirprwy Brif Swyddog Tân Cynorthwyol, Dawn Docx, sydd wedi bod yn gyfrifol am bortffolio'r iaith Gymraeg y Gwasanaeth Tân ac Achub. Hi sydd hefyd wedi bod yn cadeirio'r Fforwm Iaith Gymraeg sy'n cyfarfod yn chwarterol.

Mae'r Fforwm Iaith, sy'n cynnwys aelodau staff o wahanol adrannau megis Adnoddau Dynol, Cyfathrebiadau Corfforaethol, Hyfforddiant a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Maent yn rhan o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud am y Cynllun Iaith Gymraeg a'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol. Fe gyfarfu'r Fforwm Iaith Gymraeg ar y dyddiadau canlynol yn ystod y flwyddyn adrodd dan sylw (mae copïau o'r cofnodion ar gael ar gais).

- 10 Gorffennaf 2012
- 1 Hydref 2012
- 1 Ionawr 2013

Ym mis Mai 2013 bydd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Dros Dro newydd, sef Richard Fairhead, fydd yn gyfrifol am bortffolio'r iaith Gymraeg a chadeirio'r Fforwm Iaith Gymraeg.

Gareth Griffiths, Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygu a chynrychiolydd y Gymraeg CFOA Cymru, yw Cadeirydd Grŵp Iaith Gymraeg Strategol CFOA Cymru. Y mae'r grŵp yma hefyd yn cyfarfod yn chwarterol ac y mae'n cynnwys yr aelodau canlynol:

Gogledd Cymru

Tracey Williams, Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol
Nici Siôn, Cyfieithydd a Swyddog Cyswllt Iaith Gymraeg

De Cymru

Cath Baldwin, Swyddog Iaith Gymraeg

Canolbarth a Gorllewin Cymru

Jacqui Maunder, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a
Chyfathrebiadau Corfforaethol
Julie Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Fe gyfarfu'r grŵp ar y dyddiadau canlynol yn ystod y flwyddyn adrodd dan sylw. Mae copïau o'r cofnodion ar gael ar gais.

- 18 Mai 2012
- 20 Medi 2012
- 6 Tachwedd 2012
- 14 Mawrth 2013 (wedi ei ohirio hyd nes 24 Mai 2013 oherwydd salwch)

Y Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol sydd yn gyfrifol am weinyddu'r Cynllun Iaith Gymraeg o ddydd i ddydd gyda chefnogaeth y Swyddog Cyswllt Iaith Gymraeg.

Mae penderfyniadau fel cymeradwyo'r Cynllun Iaith Gymraeg, sy'n ymgorffori'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol, yn mynd gerbron y Grŵp Gweithredol ac yna gerbron yr Awdurdod Tân ac Achub. Y mae'r Adroddiad Monitro blynyddol hwn hefyd yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod cyn ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.

Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn parhau i fynychu pwyllgorau a gweithgorau sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau i hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae staff yn cynrychioli'r Gwasanaeth ar gyfarfodydd eraill, gan gynnwys:

- Rhwydiaith
- Hunaniaith
- Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
- Grŵp Ffocws Rhannu Adnoddau Cyfieithu Llywodraeth Cymru

3. Ein cynnydd yn ystod 2012-13

Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2012 a 1 Ebrill 2013.

Rydym yn parhau i weithredu o fewn ein Cynllun Iaith Gymraeg presennol ac rydym wedi cyflawni cynnydd sylweddol mewn perthynas â'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn adrodd dan 2012-13.

Rydym ni wedi parhau gyda'n hymrwymiad i wella ein hagwedd gadarnhaol tuag at y defnydd o Gymraeg yn ein gweithle, yn ogystal â'r gymuned a'r gwasanaethau yr ydym ni'n eu darparu i bobl y Gogledd. Mae'r gweithgareddau a lansiwyd yn 2009 i geisio cyrraedd y nod hwn yn parhau i fynd o nerth i nerth.

Isod, ceir amlinelliad o'r gweithgareddau yn ystod y cyfnod adrodd penodol yma;

Technoleg Gwybodaeth ac Arfau Ieithyddol

- Rydym yn parhau i annog a chefnogi staff i wneud defnydd o'r meddalwedd a'r technolegau iaith sydd ar gael. Mae'r meddalwedd canlynol wedi ei lawr lwytho ar defnyddiau gweinyddu pob aelod o staff: Cysgliad, Microsoft Word Cymraeg, Technoleg To Bach. Mae staff yn derbyn diweddariad o'r gwahanol dechnolegau iaith sydd ar gael ynghyd â gwybodaeth am amryw o wefannau dysgu Cymraeg mewn bwletin misol 'Mercher 'Marfer' sydd yn cael ei anfon i staff.
- Mae'r cyfleuster galluogi llais a osodwyd yn llwyddiannus ar ein gwefan yn Gymraeg a Saesneg yn parhau i fod yn arf defnyddiol iawn i nifer o ddefnyddwyr. Mae'r cyfleuster yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd pan fydd unrhyw ddeunydd ychwanegol yn cael eu llwytho ar y wefan.
- Mae rhwydweithio cymdeithasol wedi cael ei sefydlu'n gadarn fel rhan o Strategaeth Gyfathrebu swyddogol y Gwasanaeth gyda bron i 3,400 o ddilynwyr ar dudalen Facebook y Gwasanaeth a bron i 4,800 o ddilynwyr ar Twitter. Mae'r holl ddiweddariadau ar Facebook a Twitter yn cael eu darparu'n ddwyieithog fel mater o arfer, ac y mae pobl yn cyfathrebu gyda ni'n rheolaidd yn Gymraeg ar y safleoedd hyn.
- Ym mis Mai 2012 fe ail-lansiwyd gwefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'r wefan wedi cael ei diweddarau ac y mae'r holl gynnwys yn gwbl ddwyieithog.
- Bellach mae modd lawr lwytho neu wrando ar ein rhaglen CD dysgu Cymraeg ar ein gwefan newydd. Byddwn yn ychwanegu'r CD Lefel 3 maes o law.

Hyfforddiant a Datblygiad

- Rydym wedi cynhyrchu CD lefel 3 i gyd-fynd â'r CDau Lefel 1 a 2 a gynhyrchwyd yn 2008. Roedd cynhyrchu'r CD yn gam naturiol i'r cyfeiriad cywir oherwydd bod nifer o staff wedi gofyn am gael datblygu eu sgiliau ieithyddol ymhellach ar ôl iddynt gwblhau'r CD lefel 2. Addasiad o gwrs lefel 3 Heddlu Gogledd Cymru yw'r CD ac yr ydym yn ddiolchgar iddynt hwy am ganiatáu i ni ddefnyddio cynnwys y CD fel man cychwyn. Mae'r CD wedi ei addasu ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac y mae'n cynnwys pedwar aelod o staff y Gwasanaeth Tân ac Achub, ynghyd â chyflwyniad dwyieithog gan y Prif Swyddog Tân. Byddwn yn lansio'r CD hwn eleni ac yn cynnal ymgyrch i annog staff i gwblhau'r cwrs.

- Ym mis Ionawr a Chwefror 2013 cynhaliwyd cwrs Lefel 3 i 14 aelod o staff. Roedd yn gwrw 8 diwrnod dros gyfnod o 2 fis ac yr oedd wedi ei ddarparu gan Goleg Llandrillo yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl. Er ein bod wedi rhoi blaenoriaeth i aelodau staff a oedd angen cyrraedd Lefel 3 ar gyfer anghenion eu swydd, rhoddwyd cyfle i aelodau eraill o staff oedd yn awyddus i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg fynychu yn ogystal. Llwyddodd pawb i gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus gyda'r marciau yn amrywio o 83% i 100%. Cafwyd ymateb positif iawn i'r cwrs ac roedd y criw yn frwdfrydig iawn yn ôl y tiwtor. Mae'n werth nodi bob nifer o staff wedi mynychu'r cwrs yn eu hamser eu hunain, heb dderbyn tâl, oherwydd eu bod yn awyddus i ddatblygu eu sgiliau ac rydym ni fel Gwasanaeth yn gwerthfawrogi eu hymroddiad a'u brwdfrydedd hwy. Ein nod ar gyfer y flwyddyn adrodd nesaf yw trefnu rhagor o gyrsiau hyfforddi a gloywi ac annog a rhoi cefnogaeth ariannol i unrhyw un sydd yn awyddus i fynychu cwrs allanol os nad oes cwrs addas wedi yn cael ei ddarparu'n fewnol.
- Fel y gwyddoch o'n adroddiad y llynedd, rydym wedi bod yn brysur yn cynhyrchu modiwl e-ddysgu o'r Sesiwn Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg gyda'r nod o ddarparu'r sesiwn hanfodol hwn i aelodau'r System Dyletswydd yn Ôl y Galw (Diffoddwyr Tân Rhan Amser) sydd yn parhau i fod ar y rhestr aros. Yn hanesyddol mae hi wedi bod yn dipyn o her cyflwyno'r sesiwn hwn i aelodau'r System Dyletswydd yn Ôl y Galw. Ers yr adroddiad diwethaf rydym wedi cwblhau cynllun peilot o'r e-fodiwl ymysg ein gweithlu ac y mae'r feddalwedd Learn Pro wedi ei diweddarau'n sylweddol yn ystod y misoedd diwethaf. Ar hyn o bryd rydym yn diweddarau'r cynnwys i adlewyrchu argymhellion a gynigwyd a'r newidiadau yn y feddalwedd Rydym hefyd wedi bachu ar y cyfle i ddiweddarau'r cynnwys i gyd-fynd â chanlyniadau cyfrifiad 2011. Ein blaenoriaeth yw creu modiwl diddorol a rhyngweithiol a fydd yn dechlyn hyfforddi defnyddiol i bobl na all fod yn bresennol mewn sesiwn wyneb yn wyneb ac felly mae'n bwysig bod y modiwl yn bodloni ein hanghenion penodol cyn cael ei lansio. Unwaith y caiff ei gwblhau, bydd y modiwl yn cael ei glustnodi i staff sydd heb dderbyn yr hyfforddiant ar y system Learn Pro. Y mae modd diweddarau'r modiwl a'i glustnodi i staff yn ôl y galw e.e. pe byddem yn dymuno rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n gweithlu ar ein gofynion statudol pan ddaw'r Safonau newydd i rym.
- Mae ein Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol yn perthyn i gorff hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd, sef Hunaniaith. Mae Hunaniaith yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau ac asiantaethau o'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Yn ein hadroddiad y llynedd, fe soniom am ein cyfraniad ni tuag at y gwaith o sefydlu'r Academi Iaith Gymraeg i Uwch Reolwyr. Nod y cynllun peilot hwn oedd gwella sgiliau iaith Gymraeg ymhlith

Rheolwyr. Wedi'r cynllun peilot llwyddiannus y llynedd cawsom gyfle i fod yn rhan o'r Academi eto eleni. Yn ystod y flwyddyn adrodd hon mae 4 aelod o'n staff rheoli wedi bod yn rhan o'r Academi. Dengys yr ystadegau diweddaraf bod ymrwymiad ein Uwch Reolwyr i'r Gymraeg yn uchel iawn ac y mae hyn yn dyst i waith rhagorol yr Academi.

- Yn ddiweddar y mae'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub wedi rhoi proses dendro newydd ar waith ar gyfer cyrsiau hyfforddi Cymru gyfan. Fel rhan o'r broses dendro roedd yn rhaid i'r cyflenwyr fodloni meini prawf penodol cyn symud ymlaen yn y broses. Ar gyfer rhai o'r tendrau hyfforddi gofynnwyd cwestiwn mewn perthynas â'r gallu i ddarparu hyfforddiant yn ddwyieithog. Credwn fod hwn yn gam ymlaen i'r cyfeiriad cywir wrth inni gyflwyno newidiadau graddol yn ein hymgais i greu sefydliad cwbl ddwyieithog. Gwyddwn ein bod angen rhoi pwyslais cynyddol ar ein darpariaeth fewnol a dyma un o'n blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf.
- Mae cynnig mwy o ddewis iaith yn ein cyrsiau mewnol yn un o'n dyheadau fel gwasanaeth. Mae'r holl fodiwlau hyfforddi ar y system Learn Pro yn y broses o gael eu Cyfieithu ar hyn o bryd. Bydd yn broses hir dymor oherwydd y newidiadau rheolaidd sydd yn cael eu cyflwyno i'r modiwlau ac oherwydd bod cynifer o fodiwlau ar gael. Mae'r cyrsiau canlynol ar gael yn ddwyieithog ar hyn o bryd:
 - Gweinyddiaeth Busnes
 - Technoleg Gwybodaeth
 - Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg
 - Hyfforddiant Cyfryngau
 - Gloywi Iaith

Cymraeg yn y Gweithle

- Ym mis Mehefin cawsom gydnabyddiaeth o'n gwaith diflino i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle drwy gael ein henwebu am Wobr Ysbrydoli Cymru yn y categori Cymraeg yn y Gweithle. Roeddem ymhlith tri o sefydliadau eraill a gafodd eu henwebu am y wobwr ac a oedd yn bresennol yn ystod y seremoni wobrwyo a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 15 Mehefin 2012.
- Mae'r Gwasanaeth yn cyflwyno dwy wobwr i staff yn flynyddol. Cyflwynwyd y wobwr 'Dysgwr y Flwyddyn' gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân i Bennaeth yr Adran TGCh ar faes Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Eryri, Eryri 2012. (Ceir rhagor o wybodaeth yn Atodiad 1). Cyflwynwyd y wobwr 'Cyfraniad Rhagorol i'r Iaith Gymraeg' yn ystod y seremoni wobrwyo flynyddol ym mis Medi. Yr enillydd yn 2012 oedd Katy Welch, Gweinyddwraig y System Dyletswydd yn Ôl y

Galw yn y Rhyl sydd hefyd yn aelod o'r cynllun Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg. Eleni, bydd y wobwr 'Dysgwr y Flwyddyn' yn cael ei chynnwys yn y seremoni wobrwyo flynyddol a rydym yn creu gwobr newydd, a fydd yn cael ei chyflwyno i wylfa, adran neu dîm sydd wedi mynd uwchlaw a thu hwnt i'w dyletswydd i hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg.

- Y mae'r Cyfieithydd a'r Swyddog Iaith Gymraeg yn parhau i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn fewnol yn ychwanegol i'r trefniadau allanol ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol yr Awdurdod Tân ac Achub. Rydym wedi buddsoddi mewn sgiliau ac offer er mwyn daprau'r gwasanaeth hwn. At hyn rydym yn ymchwilio i'r posibilrwydd o dderbyn cefnogaeth bellach gan Heddlu Gogledd Cymru yn ôl y galw. Mae'r Fforwm Diogelwch Cymunedol yn parhau i gael ei gynnal yn gwbl ddwyieithog. Mae ymateb y Fforwm i gyflwyno gwasanaeth cyfieithu ar y pryd wedi bod yn hynod bositif ac y mae'r nifer o bobl sydd yn dewis siarad Cymraeg yn y cyfarfodydd hyn yn cynyddu o gyfarfod i gyfarfod. Rydym yn parhau gyda'n hymrwymiad i gyflwyno mwy o Gymraeg mewn cyfarfodydd mewnol ac y mae'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael i unrhyw un yn ôl y galw. Mae cynyddu'r defnydd o'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn fewnol yn un o'n blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.
- Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn parhau gyda'r gwaith a sefydlwyd yn dilyn nawdd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn ôl yn 2009 a 2010 i hyrwyddo'r iaith yn y gweithle. Rydym wedi recriwtio rhagor o Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn ac wedi safoni eu lwfans a'u gweithgareddau. Erbyn hyn mae gennym 27 o hyrwyddwyr - gweler Atodiad 3 am gopi o'r ffurflen adrodd newydd. Mae'r Hyrwyddwyr yn parhau i dderbyn cyngor ar sut i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle ar ffurf e-bost a anfonir atynt bob pythefnos, sydd yn cynnwys taflenni gwaith (gweler Atodiad 2 am enghreifftiau o'r e-byst hyn).
- Fel rhan o'u hyfforddiant yn ystod 2012-13, cafodd yr Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg eu briffio ar y broses asesu sgiliau, a chawsant gyflwyniad gan diwtor Cymraeg i Oedolion yn ardal Rhuthun a chyflwyniad i'r ffurflen adrodd newydd a'r meini prawf ar gyfer derbyn y lwfans chwarterol. Yn ogystal â hyn cafodd yr Hyrwyddwyr gyfle i fwynhau gwern Norwyeg gan aelod o staff a soniodd am yr anawsterau yr oedd hi wedi eu hwynebu wrth ddysgu Cymraeg. Roedd y cyflwyniad hefyd yn gyfle i'r Hyrwyddwyr gamu i esgidiau'r dysgwr a chael blas ar ddysgu iaith newydd fel oedolyn.

- Ym mis Ionawr 2013 fe dderbyniodd pob aelod o staff galendr desg dwyieithog. Mae'r calendrau yn cynnwys ymadroddion Cymraeg, geirfa syml a negeseuon tymhorol. Nod y calendrau yw bod yn arf gweledol i staff i'w helpu i ymarfer eu Cymraeg a'u hatgoffa o eirfa Cymraeg syml e.e. dyddiau'r wythnos, lliwiau, yr amser, misoedd, berfau ayyb.
- Ers rhai blynyddoedd bellach mae staff wedi defnyddio bathodynau i nodi eu bod yn dysgu Cymraeg neu'n siarad Cymraeg. Yn ystod y flwyddyn adrodd hon rydym wedi ymestyn y cynllun hwn a bellach mae modd i ddiffoddwyr tân sydd yn siarad Cymraeg yn rhugl nodi hynny drwy osod sticer 'Cymraeg' ar eu helmedau. Mae'r tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru yn defnyddio'r sticeri erbyn hyn ac rydym yn mawr obeithio y bydd hyn yn rhoi hyder i bobl siarad Cymraeg gyda'n diffoddwyr tân ac y bydd pobl yn sylweddoli bod gwasanaeth dwyieithog ar gael.
- Yn ein hadroddiadau blaenorol, fe soniom fod y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru wedi cymryd rhan yn yr ymgyrch 'Mae Gen Ti Ddewis', un o ymgyrchoedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg. O ganlyniad i'r ymgyrch, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y bobl a dderbyniodd archwiliadau diogelwch tân yn y cartref trwy gyfrwng y Gymraeg yng Ngogledd Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf - cynnydd o 6% - 16% ac yna i 20% rhwng 2010 - 2012 . Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweld lleihad yn y niferoedd hyn – o 20% i 16.88%. Gellir priodoli hyn i'r ffaith nad ydym wedi cwblhau cymaint o archwiliadau ag y gwnaethom ni'r llynedd – o 28,742 i 21,783 - a'n bod wedi gweld gostyngiad yn nifer yr archwiliadau hyn yng Ngwynedd ac Ynys Môn ble mae'r cymunedau Cymraeg yn tueddu i fod. Er hyn, mae'r canrannau'n parhau i amrywio rhwng 14%-20% ar wahanol gyfnodau o'r flwyddyn adrodd ac maent yn parhau i gadw'n eithaf cyson â chanlyniadau'r cyfrifiad diwethaf, sef o gwmpas 19% (ceir rhagor o wybodaeth yn Adran 5). Mae darparu gwasanaeth dwyieithog yn parhau i fod yn bwysig i ni a byddwn yn ail-lansio'r ymgyrch yn yr haf, gyda'r nod o amlygu'r gwasanaeth dwyieithog hwn yn fewnol ymysg y staff sydd yn darparu'r archwiliadau hyn yn ogystal â'i hybu'n allanol yn ein cymunedau.
- Y llynedd, daeth i'r amlwg bod rhai aelodau staff wedi colli hyder yn eu sgiliau iaith Gymraeg, ac o ganlyniad fe edrychom ar y math o hyfforddiant, cefnogaeth ac asesiadau yr oedd ei hangen ar yr unigolion hyn er mwyn unioni'r sefyllfa. Mewn rhai achosion roedd staff wedi hunanasesu eu sgiliau yn is na'r gofyn. Yn ddiweddar cafodd yr unigolion hyn asesiadau ffurfiol a roddodd sicrwydd iddynt bod eu sgiliau yn uwch na'r hyn yr oeddent wedi ei nodi yn y lle cyntaf. (Dalier sylw, mae'r yr ystadegau yn adran 5 yn sôn am y cyfnod rhwng Ebrill 2012 a Mawrth 2013 ac felly nid yw'r asesiadau

diweddar hyn wedi eu cynnwys). Golyga hyn felly mai dim ond 2 unigolyn mewn swyddi rheng flaen yn yr Ystafell Reoli sydd yn methu â bodloni gofynion ieithyddol eu swyddi. Y mae'r ddwy wrthi'n gweithio tuag at gyrraedd y lefel ddisgwyliedig ac rydym yn ffyddiog y byddant yn llwyddo.

Meysydd Blaenoriaeth ar gyfer y Flwyddyn Adrodd Nesaf:

- Creu rhagor o gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd yn y gweithle.
- Cyflwyno gwobr newydd i annog gorsafoedd/timau i wella eu sgiliau iaith Gymraeg gyda'i gilydd
- Parhau i fod yn rhagweithiol o ran cynnig archwiliadau diogelwch tân drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Parhau i fod yn rhagweithiol wrth gynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a lansio ymgyrch i hybu'r gwasanaethau sydd ar gael yn ddwyieithog.
- Parhau i gydweithio gyda sefydliadau eraill, yn cynnwys y gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru a'n partneriaid yn y Gogledd, i rannu arferion da.
- Diweddarau'r pecyn gwybodaeth sydd yn cael ei gyflwyno i staff newydd
- Parhau i ddatblygu ein Cynllun Iaith Gymraeg.

4. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg

Tasg	Cyfrifoldeb	Cynnydd hyd yn hyn	Tystiolaeth
Hyrwyddo'r Cynllun yn fewnol			
Ceisio ffyrdd i godi proffil y Cynllun trwy: hyfforddiant ymwybyddiaeth a mynediad at gyngor a chyfarwyddyd.	Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol	<p>Mae modiwl ymwybyddiaeth iaith wedi cael ei roi ar brawf ac mae ar fin cael ei gwblhau. Bydd y modiwl yn cynnwys asesiad.</p> <p>Mae pob aelod newydd o staff yn derbyn dogfen ymgyfarwyddo sydd yn cynnwys gwybodaeth am yr iaith Gymraeg.</p> <p>Parhau gyda'n mewnwyd ddwyieithog ysydd yn cynnwys adrannau am y Gymraeg, arweiniad i ddysgwyr a gwybodaeth i Hyrwyddwyr, a darparu gwybodaeth ychwanegol i staff yn Niweddariad y Prif Swyddog a'r Fflam.</p> <p>Parau gyda'r prosiect i hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol drwy ddefnyddio'r Hyrwyddwyr.</p>	<p>Cyfeirier at y Cynllun Iaith Gymraeg yn y Sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith. Yn y dyfodol, bydd asesiad yn dystiolaeth o hyfforddiant.</p> <p>Mewnwyd, Diweddariad y Prif Swyddog, Y Fflam</p> <p>Wedi darparu diweddariad</p>

<p>Hyrwyddo'r Cynllun yn allanol</p> <p>Parhau i geisio ffyrdd i wella effeithiolrwydd ein gwefan wrth hyrwyddo ein delwedd fel sefydliad dwyieithog.</p>	<p>Swyddog Cyfathrebiadau Corfforaethol</p>	<p>Mae'r wefan yn gwbl ddwyieithog ac yn cynnwys gwybodaeth am Gynllun yr Iaith Gymraeg. Mae gwybodaeth am ein Cynllun Iaith Gymraeg 2010-13 diwygiedig wedi cael ei ychwanegu i'n gwefan. Mae safleoedd rhwydweithio cymdeithasol sydd wedi eu mabwysiadu gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar Facebook a Twitter yn ddwyieithog hefyd.</p> <p>Mae'r wefan wedi cael ei ailwampio a'i ail-lansio – bydd yn aros yn gwbl ddwyieithog.</p>	<p>Gweler gwefan/nau http://www.nwales-fireservice.org.uk/page.asp?page=114 www.facebook.com/northwalesfireservice www.twitter.com/northwalesfire</p>
<p>Paratowyd arweiniad i asiantaethau allanol a chontractwyr er mwyn tynnu eu sylw at ofynion y Cynllun. Hyn i gynnwys anogaeth gref gan drydydd parti sydd yn gweithio yn adeiladau'r gwasanaeth tân ac achub i godi arwyddion dwyieithog.</p>	<p>Rheolwyr Cefnogi Gwasanaethau</p>	<p>Mae Adran Cyfleusterau'r Gwasanaeth yn cael ei rhannu gyda'r Heddlu, ac yn cael ei gweithredu rhwng y ddau sefydliad.</p>	<p>Mae'r paragraff isod yn cael ei ychwanegu i unrhyw ddogfennau/gwaith papur sy'n cael ei anfon i gontractwyr: <i>Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub wedi cymeradwyo ei Gynllun Iaith Gymraeg sy'n nodi fod pob arwydd dros dro neu barhaol ar ei safle yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cynghorir contractwyr i gydymffurfio gyda'r polisi hwn ac i gysylltu gyda Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol y Gwasanaeth Tân ac Achub ar 01745 535285 am gyngor a gwasanaethau darllen proflenni am unrhyw arwyddion cyn eu cynhyrchu'n derfynol.</i></p>

Diweddarau'r wybodaeth a roddwn i gontractwyr ac eraill er mwyn ail-bwysleisio pwysigrwydd ein delwedd gyhoeddus ddwyieithog.	Rheolwr Ystadau	Cynhyrchwyd taflen ddwyieithog i'w dosbarthu i gontractwyr.	Gweler uchod
Datblygu system lle mae cyfarwyddyd ysgrifenedig ynghylch ein Cynllun Iaith yn cael ei roi fel mater o drefn i asiantaethau a chontractwyr allanol.	Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi		Gweler uchod
Darparu'r isadeiledd mewnol			
Egluro'r cyfrifoldebau o ran rhoi cyngor a chyfarwyddyd am faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg.	Cyfieithydd	<p>Mae gwybodaeth ar y cynllun wedi ei gynnwys ar y fewnwyd ac mewn dau bolisi SAPPO ac fe fanteisir ar gyfleoedd i bwysleisio materion yr Iaith Gymraeg yn Niweddariad y Prif Swyddog a'r Fflam</p> <p>Mae cylchgrawn y Gwasanaeth, y Fflam, yn cynnwys colofn fisol – Y Golofn Gymraeg – sydd yn atgyfnerthu ein hamcanion o ran y Gymraeg.</p> <p>Mae staff yn derbyn ebost misol sydd yn codi proffil y Gymraeg – Mercher 'Marfer.</p>	<p>Cynllun Iaith Gymraeg a pholisiau SAPPO</p> <p>Y Fflam</p> <p>Enghreifftiau ar gael</p>
Pennu pa grwpiau a fyddai'n goruchwyllo'n fwyaf effeithiol y gwahanol dasgau sy'n ymwneud â'r strategaeth sgiliau iaith yn y dyfodol, gan gynnwys cynnal cyfran ddiagonol o staff sydd â sgiliau dwyieithog.	Y Fforwm Iaith Gymraeg		Cynllun Iaith Gymraeg a pholisiau SAPPO

Gwneud i hyn ddigwydd			
Cynyddu'r defnydd o'r cyngor a'r cyfarwyddyd priodol wrth ddatblygu polisiâu a chynlluniau gwaith. Hyn i gynnwys adnabod ffyrdd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.	Cyfieithydd	Rhannu gwybodaeth, syniadau a chyngor gyda sefydliadau eraill. Prosiect hyrwyddo Cymraeg yn y gweithle wedi lansio syniadau eraill.	Gweler y diweddariad a geir yn yr Adroddiad monitro hwn.
Cryfhawyd y cyfarwyddyd a roddir i staff ynglŷn â hyrwyddo ei delwedd gyhoeddus ddwyieithog, er mwyn atgyfnerthu'r hyn mae'r Gwasanaeth yn ei ddisgwyl ohonynt.	Cyfieithydd	Trwy gyflwyniad y Sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg a mabwysiadu'r angen i gyrraedd Lefel 2 mewn cwртеisi ieithyddol wrth gael eu penodi/dyrchafu o Ionawr 2010 ymlaen.	Cynllun Iaith Gymraeg a pholisiau SAPPO
Cyflwyno gosod targedau sgiliau ieithyddol i'r broses flynyddol o osod targedau. Datblygu strategaeth sgiliau iaith, yn gysylltiedig â'r strategaeth IPDS er mwyn sicrhau bod y sgiliau ieithyddol angenrheidiol ar gael o fewn y gweithlu i gyflwyno gwasanaethau yn newis iaith y cyhoedd.	Rheolwr Cynllunio Corfforaethol	Mae gennym broses casglu gwybodaeth am hunanasesiadau ar gyfer sgiliau iaith Gymraeg ac rydym yn bwriadu datblygu asesiadau a hyfforddiant i wella sgiliau ar y cyfan.	Cronfa Ddata Workforce

<p>Y strategaeth hon i gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Egluro pa mor ddymunol fyddai sgiliau dwyieithog i gyflawni rolau unigol yn effeithiol • Ceisio ffyrdd i gynyddu cyfran y gweithlu sy'n gallu siarad (gan gynnwys drwy dargedau addas) • Sicrhau bod gan staff ddigon o wybodaeth o'r Gymraeg i ddarparu o leiaf rhai o'n gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg • Gweithredu system addas sy'n gyson a gwrthrychol i asesu gallu ieithyddol 	<p>Rheolwr Datblygu a Rheolwr AD</p>	<p>Mae hwn yn rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg 2013-13.</p>	<p>Gweithio gydag AD i gau'r bwlch, a monitro yn y dyfodol gan ddefnyddio Workforce.</p>
<p>Edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno gofynion newydd i rai swyddi o leiaf lle byddai gofyn i ymgeiswyr di-Gymraeg llwyddiannus am swyddi lle mae'r Gymraeg yn 'ddymunol' ymrwymo i gyrraedd lefel ragnodedig o fedrusrwydd yn Gymraeg o fewn cyfnod y cytunir arno.</p>	<p>Rheolwr AD</p>	<p>Rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg 2011-2013</p>	<p>Cynllun Iaith Gymraeg a pholisïau SAPPO</p>
<p>Cael ffyrdd o sicrhau bod disgrifiadau swyddi yn cael eu datblygu sy'n adlewyrchu gofynion sgiliau dwyieithog swydd benodol (yn hytrach na rolau generig)</p>	<p>Rheolwr AD</p>	<p>Rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg a'r canllaw ar recriwtio sefydlwyd gydag AD.</p>	<p>Gweithio gyda'r Adran AD.</p>
<p>Sicrhau bod dysgu Cymraeg yn cael ei gynnwys yn rhaglen ddatblygu'r Gwasanaeth</p>	<p>Rheolwr Datblygu</p>	<p>Rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg – rhaid i bob aelod newydd o staff neu rai sy'n edrych am ddyrchafiad gyflawni Lefel 2 mewn cwrteisi ieithyddol. Erbyn hyn, mae cwestiwn ar allu yn yr iaith Gymraeg yn cael ei gynnwys yn yr Adolygiad Datblygu Unigol, a'i gofnodi ar Workforce.</p>	<p>Cynllun Iaith Gymraeg a pholisïau SAPPO</p>

Cyflwyno asesiadau rheolaidd o sgiliau Cymraeg staff mewn swyddi lle nodir blaenoriaeth	Cyfieithydd	Rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg a'i fonitro drwy workforce.	Cynllun Iaith Gymraeg a pholisïau SAPPO
Hunanymwybyddiaeth barhaus			
Cyflwyno systemau i adnabod diffygion difrifol mewn gallu dwyieithog o fewn grwpiau o weithwyr, ac egluro'r weithdrefn ar gyfer datrys prinder trwy hyfforddiant neu aildosbarthu staff	Dirprwy Brif Swyddog Tân	Rhan o'r Cynllun Iaith Gymraeg ac yn cael ei fonitro drwy Workforce.	Gweithio gyda'r adran AD i adnabod anghenion.
Cynyddu'r defnydd o asesiadau ansoddol priodol i sefydlu pa mor effeithiol rydym yn perfformio o ran cysylltiadau cyhoeddus	Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol	Mewnrwyd ddwyieithog. Gwefan dwyieithog. Cyfweliadau ar y cyfryngau yn ddwyieithog. Cyhoeddiadau dwyieithog. Sefydlu system o nodi galwadau gan y wasg sy'n cael eu delio yn y Gymraeg.	Deunydd Cyfathrebiadau Corfforaethol
Integreiddio'r gwaith o fonitro proffil y gwasanaeth i'r prosesau blynyddol sy'n gysylltiedig â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella	Rheolwr Cynllunio Corfforaethol	Cytunwyd gan ddefnyddio'r Dangosyddion Perfformiad newydd.	
Sicrhau bod adroddiadau rheolaidd sy'n dod gerbron yr Awdurdod yn cynnwys gwybodaeth ystadegol a disgrifiadol am broffil ieithyddol y gwasanaeth a'i berfformiad. Hyn yn ychwanegol at yr adroddiadau rheolaidd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg	Dirprwy Brif Swyddog Tân	Mae'r adroddiad monitro blynyddol yn cael ei adrodd i'r Awdurdod a'r dangosyddion perfformiad iaith Gymraeg yn cael eu hadrodd. Bydd Aelodau'n derbyn gwybodaeth yn y Cynllun Iaith Gymraeg 2010-13 diwygiedig cyn ac ar ôl ymgynghoriad a chymeradwyaeth gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg.	Gweler diweddariad

5. Dangosyddion Perfformiad Iaith Gymraeg y Gwasanaeth Tân ac Achub

Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wedi ymrwymo i gyflawni 12 o Ddangosyddion Perfformiad. Cafodd y rhain eu hadolygu ym mis Ionawr 2010 i adrodd yn eu cylch yn 2010/11 fel yr amlinellir isod.

O'r 1af Ebrill 2012 hyd 31 Mawrth 2013, mae'r ffigyrau ar gyfer y dangosyddion newydd fel a ganlyn;

	Ystadegau ar gyfer 2011-12	Ystadegau ar gyfer 2010-11
PI1	Nifer a % y cyflwyniadau i ysgolion yn Gymraeg.	Nifer a % y cyflwyniadau i ysgolion yn Gymraeg.
Sylw	Darparwyd cyfanswm o 562 o gyflwyniadau ac o'r rhain cyflwynwyd 183 (33%) yn Gymraeg.	Darparwyd cyfanswm o 206 o gyflwyniadau i ysgolion drwy gyfrwng y Gymraeg (CA1/CA2 & CA3) - oedd yn 42% o gyfanswm y cyflwyniadau.
PI2	Nifer a % y plant sydd wedi derbyn cyngor diogelwch tân yn Gymraeg o ganlyniad i'r cyflwyniad	Nifer a % y plant sydd wedi derbyn cyngor diogelwch tân yn Gymraeg o ganlyniad i'r cyflwyniad
Sylw	<p>Fe dderbyniodd cyfanswm o 28,489 o blant gyngor diogelwch tân ac o'r rhain fe dderbyniodd 8,099 (29%) o blant gyngor diogelwch tân drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>O gymharu â 2011-2012 mae'r ffigyrau ychydig yn is ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Eglurhad posibl i'r gostyngiad hwn yw'r ffaith bod aelod o'r fim addysg wedi bod i ffwrdd o'r gwaith am 3 mis oherwydd salwch.</p> <p>Ar y cyfan mae nifer y cyflwyniadau i ysgolion wedi cynyddu oherwydd ein bod wedi ymuno gydag ymgyrchoedd amrywiol h.y. Bygiau Baco (gwrth-ysmygu) ac Unedau Cyfeirio Disgyblion (Llosgi Bwriadol)</p>	Derbyniodd cyfanswm o 9733 o blant gyngor diogelwch tân drwy gyfrwng y Gymraeg – 32% o gyfanswm nifer y plant a dderbyniodd gyngor diogelwch tân.

PI3	Nifer a % yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gyflwynwyd trwy gyfrwng y Gymraeg.	Cyfanswm nifer yr Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a gyflwynwyd yn y Gymraeg.																																																																								
Sylw	<p>Allan o gyfanswm o 21,783 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gwblhawyd 2012/30, roedd 3,676 wedi eu gwneud yn y Gymraeg (16.88%). Profwyd y lleiafswm (14.01% allan o'r holl archwiliadau yn Gymraeg) ym mis Rhagfyr 2012 o gymharu â'r uchafswm (20.2%) ym mis Mawrth 2013.</p> <p>Hefyd mae'r data isod yn dangos cymhariaeth rhwng nifer yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gwblhawyd yn y Gymraeg rhwng 1 Ebrill 2011 – 31 Mawrth 2013.</p> <table border="1" data-bbox="304 743 1171 1054"> <thead> <tr> <th>Sir</th> <th>Cyfanswm</th> <th>Cymraeg</th> <th>Canran</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Conwy</td> <td>4183</td> <td>288</td> <td>6.44</td> </tr> <tr> <td>Sir Ddinbych</td> <td>3059</td> <td>154</td> <td>4.79</td> </tr> <tr> <td>Sir y Fflint</td> <td>3283</td> <td>20</td> <td>0.61</td> </tr> <tr> <td>G Gwynedd</td> <td>1563</td> <td>1724</td> <td>52.45</td> </tr> <tr> <td>D Gwynedd</td> <td>973</td> <td>613</td> <td>38.65</td> </tr> <tr> <td>3073</td> <td>3073</td> <td>21</td> <td>0.65</td> </tr> <tr> <td>Ynys Môn</td> <td>1972</td> <td>857</td> <td>30.29</td> </tr> <tr> <td></td> <td>18107</td> <td>3676</td> <td>16.88</td> </tr> </tbody> </table>	Sir	Cyfanswm	Cymraeg	Canran	Conwy	4183	288	6.44	Sir Ddinbych	3059	154	4.79	Sir y Fflint	3283	20	0.61	G Gwynedd	1563	1724	52.45	D Gwynedd	973	613	38.65	3073	3073	21	0.65	Ynys Môn	1972	857	30.29		18107	3676	16.88	<p>Allan o gyfanswm o 28,496 o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gyflwynwyd yn 2011/12, roedd 5,506 wedi eu gwneud yn y Gymraeg (19.32%). Profwyd y lleiafswm (15.72% allan o'r holl archwiliadau yn Gymraeg) ym mis Awst 2011 o gymharu gyda'r mwyafswm (22.56) ym mis Chwefror 2012.</p> <p>Hefyd mae'r data isod yn dangos cymhariaeth rhwng nifer yr archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gwblhawyd yn y Gymraeg rhwng 1 Ebrill 2011 – 31 Mawrth 2012.</p> <table border="1" data-bbox="1256 743 2123 1054"> <thead> <tr> <th>Sir</th> <th>Cyfanswm</th> <th>Cymraeg</th> <th>Canran</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Conwy</td> <td>5587</td> <td>340</td> <td>6.09%</td> </tr> <tr> <td>Sir Ddinbych</td> <td>4441</td> <td>214</td> <td>4.82%</td> </tr> <tr> <td>Sir y Fflint</td> <td>4112</td> <td>34</td> <td>0.83%</td> </tr> <tr> <td>G Gwynedd</td> <td>4412</td> <td>2414</td> <td>54.71%</td> </tr> <tr> <td>D Gwynedd</td> <td>2235</td> <td>1166</td> <td>52.17%</td> </tr> <tr> <td>Wrecsam</td> <td>3697</td> <td>10</td> <td>0.27%</td> </tr> <tr> <td>Ynys Môn</td> <td>4012</td> <td>1325</td> <td>33.03%</td> </tr> <tr> <td></td> <td></td> <td>5506</td> <td>19.32%</td> </tr> </tbody> </table>	Sir	Cyfanswm	Cymraeg	Canran	Conwy	5587	340	6.09%	Sir Ddinbych	4441	214	4.82%	Sir y Fflint	4112	34	0.83%	G Gwynedd	4412	2414	54.71%	D Gwynedd	2235	1166	52.17%	Wrecsam	3697	10	0.27%	Ynys Môn	4012	1325	33.03%			5506	19.32%
Sir	Cyfanswm	Cymraeg	Canran																																																																							
Conwy	4183	288	6.44																																																																							
Sir Ddinbych	3059	154	4.79																																																																							
Sir y Fflint	3283	20	0.61																																																																							
G Gwynedd	1563	1724	52.45																																																																							
D Gwynedd	973	613	38.65																																																																							
3073	3073	21	0.65																																																																							
Ynys Môn	1972	857	30.29																																																																							
	18107	3676	16.88																																																																							
Sir	Cyfanswm	Cymraeg	Canran																																																																							
Conwy	5587	340	6.09%																																																																							
Sir Ddinbych	4441	214	4.82%																																																																							
Sir y Fflint	4112	34	0.83%																																																																							
G Gwynedd	4412	2414	54.71%																																																																							
D Gwynedd	2235	1166	52.17%																																																																							
Wrecsam	3697	10	0.27%																																																																							
Ynys Môn	4012	1325	33.03%																																																																							
		5506	19.32%																																																																							
PI4	Nifer a % y staff sydd wedi llwyddo yn y profion Iaith Gymraeg Lefel 1	Nifer a % y staff sydd wedi llwyddo yn y profion Iaith Gymraeg Lefel 1																																																																								
Sylw	0	10-1.01%																																																																								

PI5	Nifer a % y staff sydd wedi llwyddo yn y profion iaith Gymraeg Lefel 2	Nifer a % y staff sydd wedi llwyddo yn y profion iaith Gymraeg Lefel 2
Sylw	16 (1.78%)	17 – 1.72%
PI6	Nifer a % y staff sydd wedi llwyddo i ennill Lefel 3 yn Gymraeg	Nifer a % y staff sydd wedi llwyddo i ennill Lefel 3 yn Gymraeg
Sylw	17 wedi cyrraedd Lefel 3 (1.89%) 11 wedi cyrraedd Lefel 4 – (1.22%) 20 wedi cyrraedd Lefel 5 – (2.22%)	0 wedi cyrraedd Lefel 3 2 wedi cyrraedd Lefel 4 – 0.20% 16 wedi cyrraedd Lefel 5 – 1.62%
PI7	Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant i lefel cymhwyster y cytunwyd arni yn y Gymraeg	Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg i lefel cymhwyster y cytunwyd arni
Sylw	Lefel 3-4 wedi ei gynnwys yn yr ystadegau uchod	Lefel 2 – 8 o'r uchod (0.81%) Lefel 4 – 1 (0.01%)
PI8	Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith	Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith
Sylw	Pedwar o sesiynau ymwybyddiaeth wedi eu cynnal ar gyfer staff cefnogol gyda 7 aelod staff yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant.	Nid yw staff newydd wedi derbyn sesiynau ymwybyddiaeth yn ystod 2011-12 – nid oes llawer o staff newydd ac mae'r aelod staff sydd yn gyfrifol am gyflwyno'r sesiynau hyn wedi bod ar gyfnod mamolaeth. Fodd bynnag, rydym yn y broses o gwblhau modiwl ymwybyddiaeth ar-lein ac ar hyn o bryd rydym yn gweithio tuag at sicrhau bod pob aelod o staff yn bresennol yn ystod cyflwyniad ymarferol neu'n cwblhau'r modiwl ar-lein.
PI9	Nifer a % o swyddi lle mae Cymraeg yn hanfodol sy'n cael eu llenwi gan staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safon ddynodedig)	Nifer a % o swyddi lle mae Cymraeg yn hanfodol sy'n cael eu llenwi gan staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safon ddynodedig)
Sylw	Gweler Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod	Gweler Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod
PI10	Nifer a % y swyddi lle mae Cymraeg yn ddymunol sydd wedi eu llenwi gan staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safon ddynodedig)	Nifer a % y swyddi lle mae Cymraeg yn ddymunol sydd wedi eu llenwi gan staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safon ddynodedig)

Sylw	Gweler Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod	Gweler Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod
PI11	<p>Y perfformiad a osodwyd yn erbyn unrhyw darged sy'n cael ei fabwysiadu fel rhan o'r fframwaith rheoli perfformiad - dyma'r targedau ar gyfer 2011/12; Nifer a % y staff newydd sydd wedi ennill cymhwyster Lefel 2</p> <p>Nifer a % y staff newydd sydd wedi cael dyrchafiad a llwyddo yn Lefel 2</p>	<p>Y perfformiad a osodwyd yn erbyn unrhyw darged sy'n cael ei fabwysiadu fel rhan o'r fframwaith rheoli perfformiad - dyma'r targedau ar gyfer 2011/12; Nifer a % y staff newydd sydd wedi ennill cymhwyster Lefel 2</p> <p>Nifer a % y staff newydd sydd wedi cael dyrchafiad a llwyddo yn Lefel 2</p>
Sylw	<p>Rhaid i staff newydd ennill llwyddiant mewn Lefel 2 neu'r lefel hanfodol ar gyfer y swydd.</p> <p>Mae nifer y staff newydd sydd wedi cael llwyddiant yn 2012/13 fel a ganlyn, Lefel 2 : 4 (0.44%), Lefel 3 : 1, Lefel 4: 4 ac Lefel 5: 5.</p> <p>Nifer a chanran y staff sydd wedi cael dyrchafiad neu wedi ennill llwyddiant yn 2012/13 2; 14 wedi ennill llwyddiant Lefel 2 (1.552%) 2 wedi ennill llwyddiant Lefel 4 (0.22%) 11 wedi ennill llwyddiant Lefel 5 (1.22%)</p>	<p>Rhaid i staff newydd ennill llwyddiant mewn Lefel 2 neu'r lefel hanfodol ar gyfer y swydd.</p> <p>Mae nifer y staff newydd sydd wedi cael llwyddiant yn Lefel 2 yn 2011/12 fel a ganlyn: 2 (0.2%)</p> <p>Nifer a chanran y staff sydd wedi cael dyrchafiad neu wedi ennill llwyddiant Lefel 2 yn 2011/12; 2 wedi ennill llwyddiant Lefel 2 (0.2%) 5 wedi ennill llwyddiant lefel 5 (0.51%)</p>
PI12	Nifer a % y galwadau yr ymdriniwyd â hwy yn y Gymraeg yn Swyddfeydd y Sir o fewn cyfnod penodol - wythnos 1af Mai ac wythnos 1af Tachwedd pob blwyddyn.	Nifer a % y galwadau yr ymdriniwyd â hwy yn y Gymraeg yn Swyddfeydd y Sir o fewn cyfnod penodol - wythnos 1af Mai ac wythnos 1af Tachwedd pob blwyddyn.
Sylw	Mae'r galwadau a nodwyd yn rhai yr ymdriniwyd â hwy yn y Gymraeg yn unig gan ei bod hi'n bolisi safonol i ateb pob galwad yn ddwyieithog. Gweler isod am rifau ar gyfer pob sir.	Mae'r galwadau a nodwyd yn rhai yr ymdriniwyd â hwy yn y Gymraeg yn unig gan ei bod hi'n bolisi safonol i ateb pob galwad yn ddwyieithog. Gweler isod am rifau ar gyfer pob sir.

PI13	Nifer a % y llythyrau a dderbyniwyd ac a anfonwyd yn Gymraeg yn y Swyddfeydd Sirol o fewn cyfnod penodol - wythnos 1af Mai ac wythnos 1af Tachwedd bob blwyddyn.	Nifer a % y llythyrau a dderbyniwyd ac a anfonwyd yn Gymraeg yn y Swyddfeydd Sirol o fewn cyfnod penodol - wythnos 1af Mai ac wythnos 1af Tachwedd bob blwyddyn.
Sylw	<p>Cafodd y swyddfeydd sirol eu huno eleni – ac felly mae'r ffigurau a gofnodwyd ar gyfer rhai swyddfeydd yn seiliedig ar ddwy sir fel a nodir isod.</p> <p>Sir Ddinbych 3.07% o lythyrau a 11.51% o alwadau</p> <p>Conwy 51.27% o lythyrau a 18.42% o alwadau (cynnydd yn nifer y llythyrau oherwydd bod nifer uchel o lythyrau wedi eu hanfon allan yn ddwyieithog)</p> <p>Wrecsam a Sir y Fflint 0% o lythyrau a 0% o alwadau</p> <p>Gwynedd ac Ynys Môn 60.68% o lythyrau a 55.39% o alwadau</p> <p>(Mae'r holl lythyrau mewn perthynas ag archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn cael eu hanfon allan yn ddwyieithog ymhob sir)</p>	<p>Sir Ddinbych 0% o lythyrau a 5.6% o alwadau</p> <p>Wrecsam 0% o lythyrau a 0% o alwadau</p> <p>Conwy 0% o lythyrau a 27.36% o alwadau</p> <p>Gogledd Gwynedd 32.02% o lythyrau (a dderbyniwyd neu a gyflwynwyd yn Gymraeg neu'n ddwyieithog) a 48.29% o alwadau</p> <p>De Gwynedd 58.67% o lythyrau (a dderbyniwyd neu a anfonwyd yn Gymraeg neu'n ddwyieithog) a 47.50% o alwadau</p> <p>Ynys Môn 75.92% of lythyrau a 23.56% o alwadau</p> <p>Sir y Fflint 0% o lythyrau a 0% o alwadau</p> <p>(Mae pob llythyr sy'n ymwneud ag archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn cael eu hanfon yn ddwyieithog ym mhob sir)</p>

PI14	Nifer a % y staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safon ddynodedig)	Nifer a % y staff sydd â sgiliau dwyieithog (i'r safon ddynodedig)
Sylw	Gweler Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod	Gweler Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod
PI15	Nifer a % y swyddi prif dderbynfeydd a ddynodwyd yn rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol ac sydd wedi eu llenwi gan staff dwyieithog	Nifer a % y swyddi prif dderbynfeydd a ddynodwyd yn rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol ac sydd wedi eu llenwi gan staff dwyieithog.
Sylw	Gweler Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod	Gweler Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod
PI16	Nifer a % y staff o fewn y Gwasanaeth sy'n gallu siarad Cymraeg - yn ôl adran, gradd y swydd, neu fan gwaith.	Nifer a % y staff o fewn y gwasanaeth sy'n gallu siarad Cymraeg - yn ôl adran, gradd y swydd neu fan gwaith.
Sylw	Gweler Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod	Gweler Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg isod
PI17	Nifer a % y cwynion o ffynonellau, sydd ddim yn cynnwys staff na'u cynrychiolwyr, am weithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg a % y cwynion yr ymdriniwyd â hwy, yn unol â'r safonau a osodwyd gan yr Awdurdod.	Nifer y cwynion o ffynonellau, heblaw staff neu gynrychiolwyr, am weithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg, a % y cwynion yr ymdriniwyd â hwy yn unol â'r safonau a osodwyd gan yr Awdurdod.
Sylw	Cafwyd un cwyn mewn perthynas ag arwydd yng ngorsaf dân Abermaw – cafodd yr arwydd Cymraeg ei newid i 'Gorsaf Dân Abermaw' yn hytrach na 'Gorsaf Dân Barmouth' a chafwyd archwiliad o'r holl arwyddion yn yr orsaf.	Ni chafwyd unrhyw gwynion o'r fath yn y cyfnod hwn
PI18	Nifer a % y cwynion gan staff neu eu cynrychiolwyr am faterion iaith.	Nifer y cwynion gan staff neu eu cynrychiolwyr am faterion iaith.
Sylw	Ni chafwyd unrhyw gwynion o'r fath yn y cyfnod hwn	Ni chafwyd unrhyw gwynion o'r fath yn y cyfnod hwn.

PI19	Nifer a % yr asiantaethau a contractwyr sy'n derbyn canllaw i gydymffurfio gyda'n Cynllun Iaith Gymraeg.	Nifer yr asiantaethau a contractwyr sydd wedi derbyn canllaw i gydymffurfio gyda Chynllun yr Iaith Gymraeg.
Sylw	<p>Mae pob Contractwr ar y rhestr Contractwyr Cymeradwy wedi cael eu hysbysu o Gynllun Iaith Gymraeg GTAGC. Mae contractwyr newydd yn cael eu hysbysu pan fyddant yn cael eu hychwanegu at y rhestr.</p> <p>Mae'r Adran Cyfleusterau yn ymdrechu i roi gwybod i Gontractwyr a staff am Bolisi Iaith Gymraeg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Yn ystod 2013, fel rhan o'r Gweithdrefnau Rheoli Contractwyr, fe gynhaliodd yr Adran Gyfleusterau gyfres o seminarau ar gyfer yr holl Gontractwyr i'w briffio am bolisiau a chanllawiau pwysig er mwyn gwneud yn sir bod yr rhain yn eglur a'u bod yn cydymffurfio. Cafodd aelodau staff allweddol eu gwahodd i'r seminarau hyn er mwyn gwneud yn siŵr eu bod hwythau'n deall hefyd. Bu ir adran gydweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru i fabwysiadu eu polisiau hwy, megis yr holiadur ymgymhwysu sydd yn cael ei ddatblygu i wneud yn siŵr bod Contractwyr yn cydymffurfio.</p> <p>Mae'r adran TGCh hefyd yn gwneud yn siŵr bod yr holl gontractwyr y mae'r adran yn eu defnyddio yn gyfarwydd â gofynion y Polisi Iaith Gymraeg.</p>	<p>Mae pob Contractwr ar y rhestr Contractwyr Cymeradwy wedi cael eu hysbysu o Gynllun Iaith Gymraeg GTAGC. Mae contractwyr newydd yn cael eu hysbysu pan fyddant yn cael eu hychwanegu at y rhestr.</p>
PI20	Nifer a % y galwadau brys yr ymdriniwyd â hwy yn y Gymraeg.	
Sylw	<p>Yn ystod 2012/13 derbyniodd yr Ystafell Reoli 15,739 o alwadau brys. O'r cyfanswm hwn, fe ymdriniwyd â 137 o alwadau yn Gymraeg (0.87%)</p>	<p>Yn ystod 2011/12 derbyniodd yr Ystafell Reoli 17,170 o alwadau brys. O'r cyfanswm hwn, fe ymdriniwyd â 237 o alwadau yn Gymraeg (1.38%)</p>

Dadansoddiad o Sgiliau Siarad Cymraeg

1. PRIF GANFYDDIADAU:

1.1 CANLYNIADAU POSITIF

- Er bod nifer y staff wedi gostwng, mae Strategaeth Iaith Gymraeg y Gwasanaeth yn parhau i fod yn effeithiol o ran cynyddu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu.
- Mae canran y staff sydd yn meddu ar sgiliau iaith Gymraeg Lefel 2 neu uwch yn parhau i godi.
- Rydym wedi llwyddo i gyflawni safonau da mewn pocedi penodol yn cynnwys datblygu sgiliau iaith ymhlith uwch reolwyr a dyraniad staff Cymraeg eu hiaith mewn siroedd ac adrannau/swyddogaethau penodol. o safonau da
- Y mae mwyafrif ein staff wedi cwblhau hunan asesiad neu wedi cael asesu eu sgiliau iaith Gymraeg yn ffurfiol. Maent yn cael eu cofnodi ar system AD y Gwasanaeth a chan yr adran Hyfforddiant.

1.2 HERIAU YR YDYM YN EU HWYNEBU O HYD

- Y mae gwybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg 38 aelod o staff yn parhau i fod yn anhysbys gan nad ydynt wedi cwblhau asesiad ffurfiol neu hunan asesiad. Byddai hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth i ni o broffil ieithyddol y Gwasanaeth, gan ddarparu dadansoddiad gywir o'r sgiliau iaith Gymraeg.
- Er bod nifer y aelodau staff hynny sydd eto i gyrraedd Lefel 2 yn parhau i ostwng, y mae aelodau staff sydd wedi cofnodi eu sgiliau fel Lefel 0 neu Lefel 1 yr ydym yn parhau i'w targedu a'u hannog i wella eu sgiliau.
- Y mae sgiliau iaith Gymraeg aelodau staff mewn swyddi derbynfya neu thrin galwadau wedi gwella – y mae rhai aelodau staff sydd eto i gyrraedd Lefel 4 ond mae tystiolaeth eu bod yn y broses o wella eu sgiliau.
- Y mae mwyafrif ein staff yn bodloni'r gofynion ieithyddol ar gyfer eu swyddi, ond y mae 314 eto i gyrraedd y lefel angenrheidiol. Byddwn yn parhau i dargedu'r unigolion hynny nad oes rheidwydd arnynt i gyrraedd lefel benodol o sgiliau iaith Gymraeg fel rhan o hymrwymiaidau cytundebol h.y. y rhai hynny a gyflogwyd cyn mis Ionawr 2010.

2 NODYN YNGLŶN Â'R CYFRIFIADAU:

- 2.1 Ystyrir mai'r diffiniad o lefelau sgiliau siarad Cymraeg yw:
Y lefel uchaf o hyfedredd ar gyfer pob unigolyn boed yn sgôr a gofnodwyd yn dilyn hunanasesiad yn ystod CDU neu'n dilyn asesiad ffurfiol.
- 2.2 Mae'r cyfrifiadau'n seiliedig ar swyddi sydd wedi eu llenwi yn unig, ac mae pob swydd, boed yn swydd lawn amser neu ran amser, wedi ei chyfrif fel petai'n swydd lawn amser. Yn achos unigolion sydd gan ddwy swydd wahanol, mae'r unigolion hynny wedi eu cyfri ddwywaith. Mae swyddi sydd yn cael eu hariannu'n allanol (cyfanswm o 9) wedi eu hepgor o'r cyfrifiadau.

TABLAU CRYNODEB

2011

Dynodiad swydd	Nifer o swyddi sydd wedi eu dynodi ar y lefel hon.	Deiliad y Swydd ar Lefel 0	Deiliad y Swydd ar Lefel 1	Deiliad y Swydd ar Lefel 2	Deiliad y Swydd ar Lefel 3	Deiliad y Swydd ar Lefel 4	Deiliad y Swydd ar Lefel 5	Deiliad y Swydd ar Lefel 6	Dim asesiad neu hunan asesiad wedi ei gwblhau	Cyfanswm cofnodion deiliaid swydd
Lefel 2	933	115	282	193	73	81	152	1	36	933
Lefel 3	9	0	2	3	3	0	1	0	0	9
Lefel 4	91	1	12	20	5	23	29	0	1	91
Lefel 5	1	0	0	0	0	0	1	0	0	1
	1034	116	296	216	81	104	183	1	37	1034

2012

Dynodiad swydd	Nifer o swyddi llawn sydd wedi eu dynodi ar y lefel hon.	Deiliad y Swydd ar Lefel 0	Deiliad y Swydd ar Lefel 1	Deiliad y Swydd ar Lefel 2	Deiliad y Swydd ar Lefel 3	Deiliad y Swydd ar Lefel 4	Deiliad y Swydd ar Lefel 5	Deiliad y Swydd ar Lefel 6	Dim asesiad neu hunan asesiad wedi ei gwblhau	Cyfanswm cofnodion deiliaid swydd
Lefel 2	875	122	220	159	96	95	150	1	32	875
Lefel 3	8	0	1	1	5	0	1	0	0	8
Lefel 4	75	2	6	10	10	14	32	0	1	75
Lefel 5	1	0	0	0	0	0	1	0	0	1
	959	124	227	170	111	109	184	1	33	959

2013


Dynodiad swydd	Nifer o swyddi llawn sydd wedi eu dynodi ar y lefel hon.	Deiliad y Swydd ar Lefel 0	Deiliad y Swydd ar Lefel 1	Deiliad y Swydd ar Lefel 2	Deiliad y Swydd ar Lefel 3	Deiliad y Swydd ar Lefel 4	Deiliad y Swydd ar Lefel 5	Deiliad y Swydd ar Lefel 6	Dim asesiad neu hunan asesiad wedi ei gwblhau	Cyfanswm cofnodion deiliaid swydd
Lefel 2	810	101	187	152	99	90	142	1	38	810
Lefel 3	8	0	1	1	5	0	1	0	0	8
Lefel 4	80	1	4	7	12	19	37	0	0	80
Lefel 5	1	0	0	0	0	0	1	0	0	1
	899	102	192	160	116	109	181	1	38	899

Trosolwg


- 3.1** Unwaith yn rhagor cafwyd gostyngiad yn nifer y swyddi sydd wedi eu llenwi yn y cyfnod cyn mis Ebrill 2013, gyda chwe deg yn llai yn 2013 o gymharu â'r dadansoddiad ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn cynnwys chwe deg pump yn llai o swyddi Lefel 2 a phum swydd Lefel 4 ychwanegol.
- 3.2** Rhwng 2012 a 2013, fe ychwanegwyd dau ar hugain o ddelliaid swydd newydd, a oedd unai'n aelodau staff newydd (17) neu aelodau staff cyfredol a oedd wedi ymgymryd â rolau ychwanegol (5). Cafodd tri ar ddeg eu penodi i swyddi Lefel 2, a naw i swyddi Lefel 4.
- 3.3** Ni chafwyd newid yn nifer y swyddi unigol hynny lle mae'r Gymraeg yn angenrheidiol – e.e. roedd swyddi Lefel 3 yn 2012 yn parhau i fod yn swyddi Lefel 3 yn 2013. Fodd bynnag, mae'r 6.3% o wahaniaeth yn nifer y swyddi sydd wedi eu llenwi rhwng y ddwy flynedd (o 959 i 899) wedi gostwng nifer y swyddi Lefel 2 hanfodol 7.4% (o 875 i 810) ond wedi cynyddi nifer y swyddi Lefel 4 hanfodol 6.7% (o 75 i 80).

Trosolwg (parhad)

- 3.4** Yn ystod y cyfnod rhwng 2011 a 2013, cafwyd newid amlwg yn y proffil sgiliau ar y cyfan, gyda lleihad sylweddol yng nghanran y deiliaid swydd hynny sydd yn meddu ar sgiliau iaith is na Lefel 2.



- 3.5** Mae hyn yn awgrymu bod y Gwasanaeth yn llwyddo i reoli'r effaith ar sgiliau iaith Gymraeg yn dda, er gwaetha'r ffaith fod yn rhaid iddo weithredu gyda llai o staff o ganlyniadau i gyfyngiadau ariannol.



- 3.6** Mae'r adrannau tywyll uchod yn dangos cyfan gynyddol y gweithlu sydd yn meddu ar sgiliau iaith Gymraeg Lefel 2 neu uwch (mae'r canran fechan hynny o weithwyr nad oes gennym wybodaeth am eu sgiliau wedi cael eu hepgor).

4. DANGOSYDDION PERFFORMIAD

- 4.1 Gwelwyd cynnydd cyson yng nghanran y swyddi Cymraeg hanfodol (Lefel 4 ac uwch) a Chymraeg dymunol (Lefel 3 ac uwch) sydd wedi eu cyflenwi gan staff sydd yn meddu ar y sgiliau siarad Cymraeg angenrheidiol.
- 4.2 Y mae hyn yn galonogol iawn o ystyried y gostyngiad yn nifer ein staff bob blwyddyn.

Nifer a chanran y swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol ac sydd wedi eu llenwi gan staff sydd â sgiliau dwyieithog i'r lefel ddymunol. P19	2011	2012	2013
Cyfanswm nifer y swyddi sydd wedi eu dynodi'n rhai Lefel 4 neu uwch.	92	76	81
Y nifer sydd wedi eu llenwi gan staff gyda sgiliau siarad Cymraeg Lefel 4 neu uwch.	53	47	57
Y ganran sydd wedi eu llenwi gan staff gyda sgiliau iaith Gymraeg Lefel 4 neu uwch.	57.6%	61.8%	70.4%

Cofnodwyd cynnydd o 8.6 pwynt canran yn nifer y swyddi Cymraeg hanfodol sydd wedi eu llenwi gan staff sydd â sgiliau dwyieithog i'r lefel ddymunol.

Nifer a chanran y swyddi lle mae'r Gymraeg yn ddymunol ac sydd wedi eu llenwi gan staff sydd â sgiliau dwyieithog i'r lefel ddymunol. P110	2011	2012	2013
Cyfanswm nifer y swyddi sydd wedi eu dynodi'n rhai Lefel 2 neu Lefel 3.	942	883	818
Y nifer sydd wedi eu llenwi gan staff sydd â sgiliau siarad Cymraeg ar Lefel 2 neu uwch.	504	507	490
Y ganran sydd wedi eu llenwi gan staff gyda sgiliau siarad Cymraeg ar Lefel 2 neu uwch.	53.5%	57.4%	59.9%

Cofnodwyd cynnydd o 2.5 pwynt canran yn nifer y swyddi Cymraeg dymunol sydd wedi eu llenwi gan staff sydd â sgiliau Lefel 2 neu uwch.

Dangosyddion Perfformiad (parhad)

- 4.3** Mae'r Gwasanaeth yn parhau i gynyddu canran ei staff sydd yn meddu ar y sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol ar gyfer eu swydd.
- 4.4** Gan fod y Gwasanaeth yn ystyried Lefel 2 yn isafswm disgwyliedig ar gyfer yr holl swyddi, mae'r cyfrifiad yn seiliedig ar y ffaith bod unrhyw un sydd gan sgiliau is na'r lefel hon, neu unrhyw lle mae eu sgiliau wedi eu cofnodi fel ("anhysbys"), yn cael ei gynnwys yn y dangosydd hwn.
- 4.5** O'r 314 aelod staff nad oedd yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol yn 2013, roedd tri ar ddeg yn mewn "swyddi priif dderbynfa" (yn cynnwys pump yn yr Ystafell Reoli).

Nifer a chanran y staff sydd â sgiliau dwyieithog i'r safon ddynodedig. P114

Cyfanswm y nifer o staff (gan gynnwys rhai sydd heb dderbyn asesiad)

Y nifer o staff sydd â sgiliau oedd yn cwrdd â meini prawf sgiliau ieithyddol eu swyddi.

Y canran o staff lle'r oedd eu sgiliau yn cwrdd â'r meini prawf a osodwyd ar gyfer eu swydd yn ddigonol.

2011	2012	2013
1,034	959	899
557	554	547
53.9%	57.8%	60.8%

Cofnodwyd cynnydd o 3.0 pwynt canran yn nifer y staff sydd yn meddu ar sgiliau dwyieithog i'r safon ddynodedig.

Nifer a chanran y staff sydd heb sgiliau dwyieithog i'r safon ddynodedig.	2011	2012	2013
Nifer y staff nad yw eu sgiliau'n cwrdd â'r lefel angenrheidiol ar gyfer y swydd	440	372	314
Canran y staff nad yw eu sgiliau'n cwrdd â'r lefel angenrheidiol ar gyfer y swydd	42.6%	38.8%	34.9%
Nifer y staff sydd heb gwblhau asesiad neu hunanasesiad.	37	33	38
Canran y staff sydd heb gwblhau asesiad neu hunanasesiad.	3.6%	3.4%	4.2%

Cafwyd gostyngiad o 58 yn nifer y staff nad yw eu sgiliau'n cwrdd â'r lefel angenrheidiol ar gyfer y swydd, neu 3.9 pwynt canran.

Mae nifer y staff nad oes gennym wybodaeth am eu sgiliau yn parhau i fod yn isel, ond byddwn yn ymdrechu i gael rhagor o wybodaeth yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Dangosyddion Perfformiad (parhad)

- 4.6** Mae'r ffaith bod 63% o'r holl swyddi prif dderbynfa bellach wedi eu cyflenwi gan staff sydd yn meddu ar sgiliau iaith Gymraeg Lefel 4 ac uwch yn nodi cynnydd sylweddol yn ein hymgais i gwrdd â'r targed - cydymffurfiad 100%.
- 4.7** O'r wyth aelod staff sydd eto i gyrraedd y lefel angenrheidiol ar gyfer y swydd, sef Lefel 4, mae pedwar wedi llwyddo i gynyddu eu sgiliau i Lefel 3 yn ystod y flwyddyn hon. Ar y cyfan, o'r wyth yma, y mae chwech wedi llwyddo i gyrraedd Lefel 3.

Nifer a chanran y swyddi prif dderbynfeydd sydd wedi eu dynodi fel 'Cymraeg yn hanfodol' a sydd wedi eu llenwi gan staff dwyieithog.PI15

Cyfanswm y nifer o swyddi 'rolau prif dderbynfa'

2011	2012	2013
26	20	22
12	9	14
46.2%	45%	63.6%

Cyfanswm y nifer o 'swyddi prif dderbynfa' sydd wedi eu llenwi gan staff sydd â sgiliau siarad Cymraeg Lefel 4 neu uwch.

Y canran o 'swyddi prif dderbynfa' sydd wedi eu llenwi gan staff sydd â sgiliau siarad Cymraeg a Lefel 4 neu uwch.

Cafwyd cynnydd o 6 yn nifer a chanran y swyddi prif dderbynfeydd Cymraeg hanfodol sydd wedi eu cyflenwi fan staff dwyieithog, neu 18.6 pwynt canran.

- 4.8** Yn dilyn gostyngiad bach yn 2012, mae'r lefelau sgiliau yn yr Ystafell Reoli wedi cynyddu yn ôl i'r lefel a gofnodwyd yn 2011. O'r pum aelod staff yn yr Ystafell Reoli nad oedd yn meddu ar y lefel angenrheidiol ar gyfer y swydd, sef Lefel 4, mae tri wedi llwyddo i gyrraedd Lefel 3.

Nifer a chanran y swyddi trin galwadau yn yr ystafell reoli sydd wedi eu dyrannu fel 'Cymraeg yn hanfodol' ac sydd wedi eu llenwi gan staff dwyieithog

Cyfanswm y nifer o staff yn yr ystafell reoli sy'n trin galwadau

2011	2012	2013
19	18	19
14	12	14
73.7%	66.7%	73.7%

Cyfanswm y nifer o staff yn yr ystafell reoli sy'n trin galwadau sydd â sgiliau siarad Cymraeg Lefel 4 neu uwch. Y canran o staff yn yr ystafell reoli sy'n trin galwadau sydd â sgiliau iaith Lefel 4 neu uwch.

Dangosyddion Perfformiad (parhad)

Nifer y staff yn ôl lefel sgiliau, fesul sir.

2011

Staff yn	Cyfanswm swyddi	Deiliad y Swydd ar Lefel 0	Deiliad y Swydd ar Lefel 1	Deiliad y Swydd ar Lefel 2	Deiliad y Swydd ar Lefel 3	Deiliad y Swydd ar Lefel 4	Deiliad y Swydd ar Lefel 5	Deiliad y Swydd ar Lefel 6	Dim asesiad neu hunan asesiad wedi ei gwblhau	Cyfanswm staff
Ynys Môn	124	4	22	30	15	21	29	0	3	124
Conwy	183	13	60	59	11	8	22	1	9	183
Sir Ddinbych	280	33	86	60	24	32	39	0	6	280
Sir y Fflint	104	25	45	18	5	1	2	0	8	104
Gogledd Gwynedd	133	1	15	20	10	23	63	0	1	133
De Gwynedd	101	6	20	13	11	17	27	0	7	101
Wrecsam	109	34	48	16	5	2	1	0	3	109
Cyfanswm	1034	116	296	216	81	104	183	1	37	1034
Cyfanswm Gwynedd	234	7	35	33	21	40	90	0	8	234

2012

Staff yn	Cyfanswm swyddi	Deiliad y Swydd ar Lefel 0	Deiliad y Swydd ar Lefel 1	Deiliad y Swydd ar Lefel 2	Deiliad y Swydd ar Lefel 3	Deiliad y Swydd ar Lefel 4	Deiliad y Swydd ar Lefel 5	Deiliad y Swydd ar Lefel 6	Dim asesiad neu hunan asesiad wedi ei gwblhau	Cyfanswm staff
Ynys Môn	112	4	10	23	23	17	33	0	2	112
Conwy	172	16	48	42	16	16	24	1	9	172
Sir Ddinbych	260	33	71	50	31	30	38	0	7	260
Sir y Fflint	98	26	37	20	7	0	2	0	6	98
Gogledd Gwynedd	126	5	10	9	15	26	60	0	1	126
De Gwynedd	92	7	14	10	12	15	27	0	7	92
Wrecsam	99	33	37	16	7	5	0	0	1	99
Cyfanswm	959	124	227	170	111	109	184	1	33	959
Cyfanswm Gwynedd	218	12	24	19	27	41	87	0	8	218

2013

Staff yn	Cyfanswm swyddi	Deiliad y Swydd ar Lefel 0	Deiliad y Swydd ar Lefel 1	Deiliad y Swydd ar Lefel 2	Deiliad y Swydd ar Lefel 3	Deiliad y Swydd ar Lefel 4	Deiliad y Swydd ar Lefel 5	Deiliad y Swydd ar Lefel 6	Dim asesiad neu hunan asesiad wedi ei gwblhau	Cyfanswm staff
Ynys Môn	98	2	8	18	22	18	28	0	2	98
Conwy	167	14	41	41	22	18	22	0	9	167
Sir Ddinbych	244	30	59	42	34	34	37	1	7	244
Sir y Fflint	93	20	31	22	7	2	3	0	8	93
Gogledd Gwynedd	118	4	8	11	12	23	58	0	2	118
De Gwynedd	88	5	12	13	10	11	30	0	7	88
Wrecsam	91	27	33	13	9	3	3	0	3	91
Cyfanswm	899	102	192	160	116	109	181	1	38	899
Cyfanswm Gwynedd	206	9	20	24	22	34	88	0	9	206

Dangosyddion Perfformiad (parhad)

Newidiadau rhwng 2012 a 2013:

- 4.9** Mae'r tabl isod yn dangos y gwahaniaeth rhwng lefelau sgiliau deiliaid swyddi rhwng 2012 a 2013, a'r effaith yn dilyn gostyngiad yn nifer y swyddi sydd wedi eu llenwi.
- 4.10** Gwelodd pob un o'r siroedd leihad yn nifer y swyddi sydd wedi eu llenwi – cyfanswm o chwe deg.
- 4.11** O'r chwe deg roedd 57 deiliad swydd ar Lefel 0 (22 yn llai) neu Lefel 1 (35 yn llai) yn y flwyddyn flaenorol.

Staff yn	Cyfanswm swyddi yn 2013	Deiliad y Swydd ar Lefel 0	Deiliad y Swydd ar Lefel 1	Deiliad y Swydd ar Lefel 2	Deiliad y Swydd ar Lefel 3	Deiliad y Swydd ar Lefel 4	Deiliad y Swydd ar Lefel 5	Deiliad y Swydd ar Lefel 6	Aseiad wedi ei gwblhau	
Cyfanswm	899	-22	-35	-10	+5	-0	-3	0	+5	60

Newidiadau rhwng 2011 a 2013:

- 4.12** Rhwng 2011 a 2013, fe ddisgynnodd nifer y deiliaid swydd nad oedd yn meddu ar unrhyw sgiliau iaith Gymraeg neu Lefel 1 yn unig o 412 i 294 (29%). Yn ystod yr un cyfnod, gwelwyd cynnydd bach, o 288 i 291 (1%), yn nifer y rhai gyda sgiliau uwch (Lefel 4 ac uwch). Mae'r ddau yn arwyddion cadarnhaol o'n cynnydd.
- 4.13** Yn ystod yr un cyfnod, roedd 18 yn llai yn nifer y deiliaid swydd hynny a oedd wedi llwyddo i gyrraedd yr isafswm disgwylidig o ran sgiliau iaith Gymraeg y mae'r Gwasanaeth yn ceisio'i gyflwyno (Lefel 2 ac uwch), ond yn nghydestun y gostyngiad cyffredinol o ran staffio, mae hyn yn ganlyniad positif gan bod canran y rhai sydd yn meddu ar sgiliau iaith Gymraeg i'r lefel hon wedi cynyddu o'r naill flwyddyn i'r llall, 56.6% yn 2011 i 63.1% yn 2013.

	Nifer y rhai sydd heb sgiliau iaith Gymraeg o gwbl neu sydd gan sgiliau iaith isel (Lefel 0 neu Lefel 1)	Nifer y rhai sydd yn meddu ar y sgiliau iaith Gymraeg disgwylidig (Lefel 2 ac uwch)	Nifer y rhai sydd yn meddu ar sgiliau iaith Gymraeg lefel uwch (Lefel 4 ac uwch)
2011	412 (39.8%)	585 (56.6%)	288 (27.9%)
2012	351 (36.6%)	575 (60.0%)	294 (30.7%)
2013	294 (32.7%)	567 (63.1%)	291 (32.4%)

Dangosyddion Perfformiad (parhad)

Canran y sgiliau iaith Gymraeg ar draws y Gwasanaeth cyfan.
--

- 4.14** Gwelwyd cynnydd yng nghanran y staff sydd gan sgiliau Lefel 3 ac uwch ym mhob sir, ag eithrio un (Gwynedd, o'r naill flwyddyn i'r llall.
- 4.15** Mae patrwm sgiliau iaith Gymraeg ein staff wedi aros yr un fath , yn ogystal, o'r naill flwyddyn i'r llall, gyda'r nifer uchaf wedi eu lleoli yng Ngwynedd, yna Ynys Môn, Sir Ddinbych, Conwy, Wrecsam a Sir y Fflint.

	2011	2012	2013
Ynys Môn	52.4%	65.2%	69.4%
Conwy	22.4%	33.1%	37.1%
Sir Ddinbych	33.9%	38.1%	43.4%
Sir y Fflint	7.7%	9.2%	12.9%
Gwynedd	64.5%	71.1%	69.9%
Wrecsam	7.3%	12.1%	16.5%
Cyfanswm	35.7%	42.2%	45.3%
Gogledd Gwynedd	72.2%	80.2%	78.8%
De Gwynedd	54.5%	58.7%	58.0%

Canran yr holl staff ym mhob sir sydd gan sgiliau Lefel 3 ac uwch.

Dangosyddion Perfformiad (parhad)

Dosbarthiad y sgiliau iaith Gymraeg ar draws y Gwasanaeth cyfan.

- 4.16** Mae patrwm dosbarthiad sgiliau iaith Gymraeg staff y Gwasanaeth wedi aros yr un fath o'r naill flwyddyn i'r llall – gyda chanran uwch o'r holl staff sydd yn siarad Cymraeg wedi eu lleoli yng Ngwynedd, yna Sir Ddinbych, Ynys Môn, Conwy, Wrecsam a Sir y Fflint.

	2011	2012	2013
Ynys Môn	17.6%	18.0%	16.7%
Conwy	11.1%	14.1%	15.2%
Sir Ddinbych	25.8%	24.4%	26.0%
Sir y Fflint	2.2%	2.2%	2.9%
Gwynedd	40.9%	38.3%	35.4%
Wrecsam	2.2%	3.0%	3.7%
Cyfanswm			100.0%
Gogledd Gwynedd	26.0%	24.9%	22.9%
De Gwynedd	14.9%	13.3%	12.5%

Canran staff y Gwasanaeth sydd yn siarad Cymraeg sydd wedi eu lleoli ym mhob sir.

Dangosyddion Perfformiad (parhad)

Canran sgiliau iaith Gymraeg y ôl lefelau swyddi.

- 4.17** Mae'r tabl isod yn dangos mai'r canran uchaf o bobl sydd yn llwydo i gydymffurfio â'r gofynion ieithyddol ar gyfer eu swydd yw'r uwch reolwyr (colofn ii.).
- 4.18** Yr uwch reolwyr sydd hefyd yn llwyddo i gydymffurfio fwyaf â'r targed y mae'r Gwasanaeth yn dyheu i'w gyrraedd sef sgiliau Lefel 2 ar draws y sefydliad cyfan (colofn iv.), yn ogystal â'r canran uchaf o staff sydd gan sgiliau Lefel 3 ac uwch (colofn v.).
- 4.19** Dyma arwydd positif o ymrwymiad ein uwch reolwyr i'r iaith Gymraeg.

2013	% gyda sgiliau sydd yn cyd-fynd â gofynion y swydd	% gyda sgiliau Lefel 0 ac 1 yn unig	% gyda sgiliau Lefel 2 neu uwch	% gyda sgiliau Lefel 3 neu uwch	% gyda sgiliau lefel anhysbys
Cyfanswm nifer	i.	ii.	iii.	iv.	v.

Uwch Reolwyr ¹	27	74%	19%	78%	67%	4%
Rheolwyr Gorsaf	29	72%	24%	76%	52%	0%
Rheolwyr Gwylfa	102	71%	26%	71%	42%	3%
Rheolwyr Criw	128	60%	37%	60%	38%	3%
Diffoddwyr Tân	481	59%	36%	59%	43%	5%
Gradd 6 - 8	32	59%	28%	59%	53%	13%
Gradd 3 - 5	86	58%	24%	74%	60%	1%
Gradd 1- 2	14	43%	50%	43%	36%	7%
Cyfanswm	899	61%	33%	63%	45%	4%

Dadansoddiad o sgiliau Cymraeg yn ôl lefelau swyddi, yn cynnwys yr holl systemau dyletswydd a rolau.

Dangosyddion Perfformiad (parhad)

Canran sgiliau iaith Gymraeg y ôl adran/swyddogaeth.

2013	Cyfanswm nifer	% gyda sgiliau sydd yn cyd-fynd â gofynion y swydd	% gyda sgiliau Lefel 0 ac 1 yn unig	% gyda sgiliau Lefel 2 neu uwch	% gyda sgiliau Lefel 3 neu uwch
	i.	ii.	iii.	iv.	v.
Yr Ystafell Reoli ⁱⁱ	81.3%	6.3%	93.8%	78.1%	0.0%
Criwiau tân ac achub ⁱⁱⁱ	58.8%	36.5%	58.8%	40.3%	4.7%
Yr adran rheoli fflyd a chyfleusterau ^{iv}	60.0%	13.3%	60.0%	53.3%	26.7%
Pencadlys a chorfforaethol ^v	57.9%	31.6%	64.9%	49.1%	3.5%
Gweithrediadau, ymateb a chydnerthedd ^{vi}	61.5%	30.8%	69.2%	57.7%	0.0%
Eraill ^{vii}	38.9%	55.6%	38.9%	38.9%	5.6%
Atal ^{viii}	77.9%	8.8%	91.2%	76.5%	0.0%
Hyfforddiant a datblygiad ^{ix}	64.0%	32.0%	68.0%	28.0%	0.0%
All	60.8%	32.7%	63.1%	45.3%	4.2%

Dadansoddiad o sgiliau iaith Gymraeg ymysg adrannau/swyddogaethau.

- 4.20** Roedd y lefel uchaf o gydymffurfiaeth gyda'r gofynion ieithyddol ar gyfer swyddi ymysg staff yr Ystafell Reoli a'r adran Diogelwch Tân/Cymunedol (colofn i.). Yr Ystafell Reoli hefyd sydd gan y nifer uchaf o staff sydd yn meddu ar sgiliau iaith Gymraeg Lefel 3 ac uwch.

Staff y System Dyletswydd Ar Gael yn Ôl y Galw (Rhan Amser)

- 4.21** Un o'r heriau o ran cynyddu sgiliau iaith Gymraeg staff Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yw'r ffaith bod mwyafrif staff y Gwasanaeth yn perthyn i'r System Dyletswydd Ar Gael yn Ôl y Galw, ac felly mae'r cyswllt y mae'r unigolion hyn yn ei gael gyda'r Gwasanaeth er mwyn cynyddu sgiliau a chwblhau asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg yn brin iawn.
- 4.22** O'r rhai nad oes gennym gofnod o'u sgiliau iaith Gymraeg (boed hynny drwy hunanasesiad nac asesiad ffurfiol) – 38 i gyd – roedd y mwyafrif (31) yn perthyn i'r System Dyletswydd Ar Gael yn Ôl y Galw. Er bod yr 31 yn cynnwys dim ond 4.7% o'r holl aelodau criw (Llawn amser a Rhan Amser), mae'r nifer yn cynrychioli canran sylweddol o'r holl staff y mae eu sgiliau wedi eu nodi fel 'anhysbys'.
- 4.23** Yn yr un modd, o'r 240 aelod staff sydd heb sgiliau iaith Gymraeg o gwbl neu sydd gan sgiliau Lefel 1, roedd 66% (159) yn perthyn i'r System Dyletswydd Ar Gael yn Ôl y Galw.

NODIADAU

- ¹ Mae'r categori 'uwch rheolwyr' yn cynnwys Uwch Swyddogion, Rheolwyr Ardal, Rheolwyr Grŵp a Staff Cefnogol Gradd 9 – 12.
- ² Yr Ystafell Reoli – staff trin galwadau, goruchwylwyr a rheolwyr.
- ³ Criw – Personél Llawn Amser a Rhan Amser sydd ddiffoddwyr tân, rheolwyr criw a rheolwyr gwylfa yn ein gorsafodd.
- ⁴ Yr Adran Rheoli'r Ffilyd a Chyfleusterau – rheolwyr, technegwyr a staff gweinyddol, yn ogystal â staff Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl.
- ⁵ Pencadlys a Chorfforaethol – uwch rheolwyr, yr adran gyllid, cyfrifon a chyflogres; yr Adnoddau Dynol a recriwtio; cynllunio corfforaethol; cyfathrebiadau corfforaethol; cydraddoldeb; iechyd a diogelwch; gweinyddiaeth ganolog; y dderbynfa a'r ysgrifenyddiaeth; TGCh; swyddogion CAD; gweinyddwyr RMS; ymchwiliadau disgyblu; cydlynedd aelodau; cyfieithu; y storfa a chyflenwadau.
- ⁶ Gweithrediadau, ymateb a chydnerthedd – staff gweinyddol (yn cynnwys gweinyddwyr y system dyletswydd Rhan Amser); rheolwyr argaeledd; peirianwyr hydrantau/offfer diffodd tân; cydnerthedd a chydnerthedd lleol; rheolwyr ymateb; goruchwylwyr gweithrediadau; a chefnogaeth dechnegol.
- ⁷ Eraill – cynorthwyyr cynnal a chadw; gyrrwyr cyffredinol; cogyddion (/glanhawyr), prosiectau arbennig, FBU.
- ⁸ Atal – Diogelwch (Tân) Cymunedol a Gweithwyr Cefnogi Diogelwch Tân yn y Cartref; Diogelwch Tân i Fusnesau/Diogelwch Tân Deddfwriaethol; lleihau llosgi bwriadol; addysgiadwyr; gweinyddwyr atal; rheolwyr partneriaeth; a'r Ffenics.
- ⁹ Hyfforddiant a Datblygiad – Rheolwyr hyfforddiant a Datblygiad. Hyfforddwyr, safonau perfformiad' ADC a sicrwydd ansawdd, cefnogaeth NVQ, achrediad a gweinyddwyr hyfforddiant a datblygiad.
Rheolwyr Grŵp a Staff Cefnogol Gradd 9 – 12.

Atodiad 1 – Cyfathrebiadau Allanol

Datganiadau i'r Wasg

I'w ryddhau ar unwaith - Dydd Llun 1af Hydref 2012

Seremoni Wobrwyo Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Fe gyflwynodd Arglwydd Raglaw Gwynedd, Ei Anrhydedd Huw Morgan Daniel, Fedalau am Wasanaeth Hir ac Ymddygiad Clodwiw yn ystod seremoni Wobrwyo a gynhaliwyd yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl Ddydd Iau 27ain Medi.

Mae'r Medalau am Wasanaeth Hir ac Ymddygiad Clodwiw yn cael eu cyflwyno i ddiffoddwyr tân gan un o Gynrychiolwyr Ei Mawrhydi i gydnabod 20 mlynedd o wasanaeth.

Meddai Simon Smith, Prif Swyddog Tân : "Mae derbyn medal yn achlysur pwysig iawn i bob diffoddwr tân ac mae'r seremoni hwn yn cynrychioli dros 100 mlynedd o ymroddiad ac ymrwymiad i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Dylai pob un ymfalchïo yn y ffaith eu bod wedi derbyn y Fedal am Wasanaeth Hir ac Ymddygiad Clodwiw neu Wobr am Wasanaeth Hir. "

Fe gyflwynodd Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, y Cynghorydd Aled Morris Jones, wobr am Wasanaeth Ffyddlon i aelod o staff sydd wedi cwblhau 20 mlynedd o wasanaeth.

Fe gyflwynwyd y gwobrau cymunedol yn ystod y seremoni yn ogystal i gydnabod aelodau staff ac aelodau'r gymuned sydd wedi gweithio'n galed i wella diogelwch cymunedol yng Ngogledd Cymru.

Medalau Gwasanaeth Hir ac Ymddygiad Clodwiw'r Gwasanaeth Tân

PETER JOHN DAVIS

Fe gychwynodd Peter ar ei yrfa gyda Gwasanaeth Tân Clwyd ym 1992 fel Gweithredydd Rheoli Tân yn y Rhyl, cyn cael ei benodi'n Weithredydd Rheoli Tân Arweiniol ym 1998.

Y mae wedi chwarae rhan allweddol mae nifer o brosiectau pwysig dros y blynyddoedd diwethaf y cynnwys y System Rheoli Cofnodion, y Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd a rhoi'r prosiect Airwave ar waith.

Ar hyn o bryd mae Peter yn gweithio fel Rheolwr y System Rheoli yn y Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd yn Llanelwy.

DEWI GLYN JONES

Fe ymunodd Dewi â Gwasanaeth Tân Gwynedd ym 1990 fel diffoddwr tân yng Ngorsaf Dân Llandudno. Wedi seibiant byr fe ailymunodd ym 1997 a chafodd ei benodi'n Rheolwr Criw yn 2005.

Mae Dewi yn gweithio yng Ngorsaf Dân Llandudno ar hyn o bryd.

BRYN LLOYD ROBERTS

Fe ymunodd Bryn â Gwasanaeth Tân Gwynedd ym 1991 fel diffoddwr tân yng Ngorsaf Dân Llanberis, a chafodd ei ddiffoddwr tân arweiniol yn 2003.

Mae Bryn yn Rheolwr Criw yng Ngorsaf Dân Llanberis ar hyn o bryd.

ANTHONY NEVILLE WESTON

Fe ymunodd Neville fel diffoddwr tân gyda Gwasanaeth Tân Clwyd ym 1992 yng Ngorsaf Dân Dinbych, a chafodd ei benodi'n ddiffoddwr tân arweiniol ym 1995.

Mae Neville yn gweithio yng Ngorsaf Dân Abergele ar hyn o bryd.

MEURIG GLYN WILLIAMS

Fe gychwynnodd Meurig ar ei yrfa gyda Gwasanaeth Tân Gwynedd ym 1992 fel diffoddwr tân yng Ngorsaf Dân Benllech.

Mae Meurig yn parhau i wasanaethau'r gymuned yng Ngorsaf Dân Benllech.

Y WOBR AM WASANAETH FFYDDLON

JAMES FRANCIS HUGHES

Fe gychwynnodd Jim ar ei yrfa gyda Gwasanaeth Tân Gwynedd ym 1990 fel diffoddwr tân yng Ngorsaf Dân Amlwch, a chafodd ei benodi'n ddiffoddwr tân arweiniol yn 2001.

Cafodd yrfa hir a ffyddlon fel diffoddwr tân ac y mae bellach yn gweithio fel Swyddog Cwynion sy'n gorfodi'r ddeddfwriaeth diogelwch tân. Mae wedi ei leoli yn Swyddfa Sirol Ynys Môn, Llangefni.

GWOBRAU CYMUNEDOL

Cyfraniad Arbennig gan unigolyn

Mae'r wobwr yma'n cydnabod aelod o staff sydd wedi gweithio y tu hwnt i'w ddyletswyddau arferol.

Mae Adam Brightman yn rhan o'r Tîm Gweithredol ac y mae'n gweithio fel Rheolwr Cefnogi Gweithrediadau yn y Rhyl.

Mae Adam wedi arwain nifer o brosiectau ar ran yr Adran Weithrediadau ac y mae'n chwarae rhan amlwg wrth drefnu'r seremoni gyflwyno Medalau am Wasanaeth Hir ac Ymddygiad Clodwiw.

Mae Adam hefyd wedi chwarae rhan amlwg yn y gwaith o gyflwyno'r 21 peiriant tân newydd dros y misoedd diwethaf. Ef oedd yn gyfrifol am gydlynu'r rhaglen ddosbarthu, yn ogystal â rhannu gwybodaeth am y peiriannau gyda'r criwiau yn y gorsafoedd. Roedd gofyn iddo weithio oriau hir, yn aml iawn gyda'r nos ac ar benwythnosau.

Yn ddiweddar, er mwyn sicrhau bod peiriant ar gael mewn un o'n gorsafoedd, fe wirfoddolodd Adam i weithio er mwyn gwneud yn siŵr bod peiriant ychwanegol ar gael i ymateb i alwadau cyn gynted â phosibl. Roedd gofyn iddo newid ei drefniadau ar gyfer y penwythnos ar fyr rybudd gan nad oedd ef i fod i weithio'r penwythnos hwnnw.

Cyfraniad Arbennig i Elusen neu Elusennau

Cyflwynir y wobwr hon i unigolyn sydd wedi gweithio'n ddiflino drwy gydol y flwyddyn i godi arian, ac sydd hefyd wedi rhoi llawer o'u hamser er lles pobl eraill.

Mae Keith Hulse yn Ddiffoddwr Tân yng Ngorsaf Dân y Rhyl ac y mae wedi gweithio'n galed dros y blynyddoedd i godi arian i nifer o elusennau lleol a chenedlaethol.

Dros y 30 mlynedd diwethaf mae Keith wedi bod yn aelod blaenllaw o'r criw sydd yn trefnu'r Arddangosfa Tân Gwyllt flynyddol yn y Rhyl. Mae'r digwyddiad yn denu oddeutu 7,000 o bobl o'r Rhyl ac ardaloedd cyfagos bob blwyddyn ac mae'n ein helpu i atal pobl rhag tanio tân gwyllt yn eu gerddi cefn yn ogystal â helpu'r sefydliad i gyflawni ei weledigaeth o sicrhau bod y cyhoedd yn mynd i nosweithiau tân gwyllt sydd wedi eu trefnu'n iawn.

Cyfraniad Arbennig i'r Iaith Gymraeg

Cyflwynir y wobwr hon i unigolyn sydd wedi gweithio'n galed i hybu'r iaith Gymraeg yn y Gwasanaeth.

Mae Katy Welch yn Gynorthwydd Gweinyddol y System Dyletswydd yn Ôl y Galw yn Sir Ddinbych ac yn frwd dros y Gymraeg.

Mae Katy wedi bod yn Hyrwyddwr Iaith Gymraeg ers dechrau'r fenter ac y mae'n ymdrechu i hybu'r Gymraeg yn y gweithle. Mae hi wedi ymrwymo i'w rôl fel Hyrwyddwr ac mae bob amser yn gwrandao ar gyngor gan ddysgwyr ac y mae'n barod iawn i helpu ac yn hyblyg.

Yn aml iawn mae hi'n mynd tu hwnt i'r gofynion drwy ymgymryd â gwaith hyfforddi ychwanegol.

Y Wobr Cyflogwr y Flwyddyn

Cyflwynir y wobwr Cyflogwr y Flwyddyn i gydnabod cyflogwr lleol sydd yn rhyddhau staff yn rheolaidd fel y gallant gyflawni eu dyletswyddau diffodd tân yn y gymuned. Mae'r cyflogwyr hyn yn hanfodol o safbwynt sicrhau bod ein peirannau tân ar gael i ateb galwadau ar hyd a lled y Gogledd.

Eleni rydym yn gwobrwyo tri chyflogwr yn y categori hwn.

Mae Colin Cross yn Rheolwr Criw yng Ngorsaf Dân Biwmares. Mae'n hunangyflogedig ac yn rhedeg ei fusnes argraffu ei hun. Pan fydd Biwmares yn derbyn galwad mae Colin a'i fab yn cau'r busnes ac yn gadael eu gwaith er mwyn ateb yr alwad. Golyga hyn bod y cwmni ar gau am gyfnod a bod yn rhaid i Colin ailafael yn y gwaith rywbryd eto.

Mae Ernie Bradbury yn berchen garej yn Abermaw a thros y blynyddoedd mae ef a nifer o'i deulu a'i weithwyr wedi gwasanaethu fel diffoddwr tân i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Bellach, mae nifer o'i weithwyr wedi ymddeol o'r Gwasanaeth, ond y mae Ernie yn dal i gyflogi un diffoddwr tân sydd yn barod i ymateb i alwadau i Orsaf Dân Abermaw yn ôl y galw.

Mae Abersoch Land and Sea yn gyflogwyr rhagorol sydd yn cyflogi nifer o ddiffoddwyr tân sydd wedi eu lleoli yng Ngorsaf Dân Abersoch. Mae Abersoch Land and Sea yn caniatáu i'r unigolion hyn ymateb i argyfyngau pan fo'r amserlen yn caniatáu, yn aml iawn yn ystod adegau o'r dydd sydd fel rheol yn anodd iawn i ddod o hyd i gyflenwad staff y System Dyletswydd yn Ôl y Galw.

Heb gydweithrediad y cyflogwyr hyn byddai'n anodd iawn sicrhau bod y gorsafoedd ar gael i ymateb i alwadau. Os oes un aelod o'r criw yn methu bod yn bresennol yna nid yw'r orsaf honno ar gael i ateb galwadau yn y gymuned.

Y Wobr Partner Diogelwch Cymunedol

Cyflwynir y Wobr Partner Diogelwch Cymunedol i gydnabod gwaith ein partneriaid a chyrrff cyhoeddus sydd wedi gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i rannu ein negeseuon diogelwch hanfodol.

Eleni mae dau sefydliad yn derbyn y wobr.

Mae'r Gwasanaeth wedi bod yn gweithio gyda Dermot O'Leary o Wasanaeth Ambiwllans Cymru a Meurig Jones o Heddlu Gogledd Cymru dros y blynyddoedd diwethaf i hybu diogelwch ffyrdd fel rhan o'r ymgyrch 'Ffrindiau Peryg Bywyd'.

Mae'r ymgyrch yn mynd o amgylch ysgolion a cholegau ar hyd a lled y Gogledd lle mae cynrychiolwyr o'r heddlu, ambiwlans a gwasanaeth tân ac achub yn sôn am ddiogelwch ar y ffyrdd gyda'r bobl ifanc o bersbectif y gwahanol asiantaethau. Dros y tair blynedd diwethaf mae dros 15,000 o ffyrwyr wedi gwrandao ar y cyflwyniad.

Mae Dermot yn Barafeddyg ac mae wedi ei leoli yn y Rhyl. Mae bob amser yn hapus i fynychu digwyddiadau yn ymwneud â diogelwch ar y ffyrdd.

Mae Meurig yn gweithio yn yr Adran Draffig gyda Heddlu Gogledd Cymru. Dros y blynyddoedd diwethaf mae wedi bod yn gyfrifol am orfodi'r gyfraith mewn perthynas â cherbydau nwyddau trwm. Yn ystod yr amser hwn mae wedi parhau gyda'i ymrwymiad i'r prosiect Ffrindiau Peryg gan ei fod yn credu fod y prosiect yn gwneud gwahaniaeth mawr.

Mae Meurig yn trafod rôl yr heddlu a'u gwaith yn dilyn gwrthdrawiad ar y ffordd, yn ogystal â'r effaith ar y rheiny sydd yn y fan a'r lle.

Y Wobr Cymuned Fwyaf Diogel

Cyflwynir y wobr Cymuned Fwyaf Diogel i unigolyn sydd wedi darparu gwasanaeth digyffelyb i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fel aelod o'r System Dyletswydd yn Ôl y Galw.

Eleni mae dau aelod o staff yn derbyn y wobr.

Y cyntaf yw Richard William Jones o Amlwch.

Fe ymunodd Richard â'r Gwasanaeth ym mis Rhagfyr 1978 ac y mae wedi treulio'i yrfa yng Ngorsaf Dân Amlwch. Ar hyn o bryd ef yw'r Rheolwr Gwylfa yn Amlwch.

Yr ail yw Trevor Wynne Roberts o Harlech

Fe ymunodd Trevor â'r Gwasanaeth ym 1979 ac y mae wedi treulio'i yrfa yng Ngorsaf Dân Harlech. Ar hyn o bryd mae'n gweithio fel Rheolwr Criw.

Y Cynllun Awgrymiadau gan Staff

Mae'r cynllun awgrymiadau gan staff yn rhoi cyfle i staff gynnig syniadau neu fentrau newydd fel y gallwn ddarparu ein gwasanaeth mewn ffordd fwy effeithiol ac effeithlon. Eleni rydym yn cydnabod dau o'r awgrymiadau hyn.

Mae Karen Nicholson yn gweithio yn yr Aran Hyfforddiant ac fe awgrymodd hi y dylid ailedrych ar y lleoliadau ar gyfer cynnal seminarau i staff drwy wneud yn fawr o safleoedd y Gwasanaeth er mwyn gwneud arbedion.

Mae Jodie Hamilton yn ddiffoddwr tân yng Ngorsaf Dân Wrecsam ac fe awgrymodd ef y dylid defnyddio breil ar gardiau adnabod ein staff. Mae'r fenter yn ein galluogi i ymgysylltu ag aelodau'r gymuned sydd gan nam gweledol.

Fe dderbyniodd y ddau siec gwerth £50 am eu hawgrymiadau.

Cyfraniad Arbennig gan Adran

Mae'r wobwr yma'n cydnabod adran sydd wedi gwneud gwaith nodedig dros y deuddeng mis diwethaf.

Sefydlwyd y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol yn 2005.

Ers hynny mae'r tîm wedi datblygu perthynas waith ragorol a chynhyrchiol iawn gyda nifer o asiantaethau allanol, yn cynnwys Heddlu Gogledd Cymru, awdurdodau lleol, ysgolion, asiantaethau ieuenctid ac elusennau i enwi dim ond ychydig. Mae'r partneriaethau hyn yn ganolog i lwyddiant y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol a blaenoriaethau strategol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Ers ymuno â'r tîm mae Amanda Venables, Melanie Lawton a Lynne Jones wedi ennill cymwysterau fel Swyddogion Atal Troseddau a Hwyluswyr Diogelwch Tân.

Y llynedd fe gwblhaodd Amanda a Lynne dros 200 o ymweliadau atal troseddu yn dilyn atgyfeiriadau risg uchel

Mae'r tîm wedi bod yn gyfrifol am dreialu a rhoi'r rhaglen Diwrnodau Gweithredu Amgylcheddol ar waith. Mae'r cynllun hwn bellach yn cael ei ddefnyddio gan asiantaethau allanol.

I'w Ryddhau ar Unwaith – Dydd Gwener 8 Mehefin 2012

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gwobrwyo Dysgwr Y Flwyddyn 2012

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cyhoeddi mai Sarah Roberts yw Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn am eleni yn ystod seremoni wobrwyo ar faes Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nglynllifon yr wythnos hon.

Fe enillodd Sarah, pennaeth tîm Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, y wobwr 'Dysgwr y Flwyddyn' ar ôl cael ei henwebu gan ei chydweithwyr.

Mae Sarah wedi byw yng Nghymru ers ei bod yn dair blwydd oed, ond dim ond ers wyth mlynedd mae hi wedi bod yn dysgu Cymraeg. Fe ddefnyddiodd Sarah y rhaglen dysgu Cymraeg ar CD i staff y Gwasanaeth Tân ac Achub i basio'r profion lefel 1 a 2 ac yna llwyddodd i gwblhau'r cyrsiau lefel 3 a 4 a'r profion llafar.

Meddai Sarah, sydd yn byw gydag Wyn, ei gŵr, yn Nhal-y-bont yn Nyffryn Conwy: "Rydw i wedi clywed y Gymraeg yn cael ei siarad gan eraill ar hyd fy oes gan fod fy mam a'm gŵr yn Gymry Cymraeg. Saesneg yw iaith gyntaf fy nhad ac er ei fod wedi ceisio dysgu Cymraeg pan symudodd o Swydd Efrog i Gymru, Saesneg oedd iaith y cartref. Roeddwn yn aelod o'r Urdd pan oeddwn yn yr ysgol gynradd yng Nghonwy, ond nes i ddim astudio'r Gymraeg yn yr ysgol uwchradd gan y byddai hynny wedi golygu rhoi'r gorau i un o'r pynciau gwyddoniaeth. Roedd fy mryd ar fod yn beiriannydd ac ymuno â'r Llynges Frenhinol. Doedd gennym ni ddim cyfrifiaduron na ffonau clyfar y dyddiau hynny!"

"Pan oeddwn i yn gweithio i Heddlu Gogledd Cymru, sylweddolais 'mod i'n dyheu am gael cyfathrebu gyda phobl yn Gymraeg. Cefais fy ysbrydoli i ddysgu Cymraeg ac ar ôl ymuno gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru chwe blynedd yn ôl ac rydw i wedi parhau i ddysgu gan ddefnyddio'r rhaglen CD a mynychu gwersi i gyrraedd lefel 4."

Mae Sarah yn credu bod gwrando ar y Gymraeg yn cael ei siarad o'i chwmpas wedi bod yn help mawr o safbwynt dysgu sut i ynganu geiriau ac mae'n gobeithio parhau i wella ei sgiliau iaith Gymraeg: "Rydw i wedi treulio llawer o amser yn ymarfer ac adolygu ond rydw i'n gwybod hefyd fod gwrando ar y Gymraeg yn cael ei siarad wedi bod o gymorth mawr."

"Rydw i bob amser yn ceisio dysgu mwy gan fy nghydweithwyr Cymraeg ac yn ymarfer gyda hwy bod cyfle posib. Roedd ambell i air wedi aros yn y cof dros y blynyddoedd ond bellach rydw i'n medru llunio brawddegau yn hyderus iawn."

Rydw i'n sgwrsio ac yn anfon ebyst syml i'm cydweithwyr yn y Gwasanaeth Tân ac Achub a phobl o sefydliadau eraill."

"Mae fy mam wedi bod yn dioddef o glefyd Alzheimers ers ei 50au cynnar. Mae'n haws cyfathrebu gyda hi yn Gymraeg gan mai dyma yw ei hiaith gyntaf hi. Mae hefyd yn braf gallu siarad Cymraeg gydag aelodau eraill y teulu, er mod i'n drysu rhwng y tafodieithoedd gwahanol o dro i dro gan fod fy nheulu i'n dod o Fôn a theulu'r gŵr yn dod o Wynedd!"

Dawn Docx, Y Dirprwy Brif Swyddog Tân, a gyflwynodd y wobr i Sarah. Meddai: "Rydym yn byw mewn cymuned ddwyieithog ac fel Gwasanaeth rydym yn credu ei bod yn hynod bwysig ein bod yn cydnabod pa mor bwysig yw diwylliant a threftadaeth Cymru yn ogystal â chyfathrebu gyda thrigolion yn eu hiaith ddewisol.

"Rydym wedi sefydlu grŵp o Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg yn y Gwasanaeth sydd ar gael i helpu ein staff i ddysgu Cymraeg a bod yn fentoriaid a chynnig cefnogaeth mewn nifer o leoliadau ar hyd a lled y Gogledd. Mae Sarah wedi elwa o'r fenter hon.

"Roedd pawb yn cytuno gyda'r sawl a enwodd Sarah ei bod hi wedi dangos ymrwymiad ac wedi gweithio'n ddiflino i ddysgu Cymraeg - gyda lwc bydd hyn yn annog eraill i ddysgu'r iaith a gwneud yn fawr o'r sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iddi hi."

Atodiad 2 – Cyfathrebiadau mewnol

Y Golofn Gymraeg:

Y GOLOFN GYMRAEG

GAN NICI SION, CYFIEITHYDD A SWYDDOG CYSWLLT IAITH GYMRAEG

RECORDIO CD LEFEL 3

Rydym wedi bod yn brysur yn ddiweddar yn recordio ein CD Lefel 3. Cawsom hwyf yn stiwldio Sain ger Caernarfon a hoffwn ddiolch i Alun, Ceri, Rhian a'r Prif Swyddog am gynorthwyo ar y diwrnod. Fe lwyddom i recordio'r sgript cyfan mewn diwrnod sydd yn tipyn o gamp gan nad oed yr un o honom wedi bod mewn stiwldio o'r blaen.

Mae'r CD yn addasiad o gwrs dysgu Cymraeg yr Heddlu a bydd ar gael i chi yn fuan.

Felly, os ydych chi eisoes wedi cwblhau cwrs Lefel 2 pan na rowch chi gynllig ar Lefel 3.

SEMINARAU

Yn ystod mis Ionawr a mis Mawrth fe gynhaliwyd nifer o seminarau i'n Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg. Seminarau mewnol oedd yr rhain gyda'r nod o ddo at ein gilydd i freinio'r cynllun. Catodd yr Hyrwyddwyr gyflie i drafod syniadau ar sut i fynd ati i hyrwyddo'r Gymraeg yn o gystal ac arweiniad i'r broses asesu.

Roedd hefyd yn ddiddorol cael cyflwyniad gan Hanne Tolg Parminter o Gonwy sydd wrthi'n dysgu Cymraeg. Fe lwyddodd Hanne i gyflawni asesiad Lefel 3 yn llwyrddiannus ar ol cwrs gloywi iaith mewnol yn yr Hydref. Cawsom flas ar sut beth ydi dysgu iaith newydd fel oedolyn drwy gael gwrs Norwyeg ganddi hi. Fe soniodd Hanne am yr heriau y mae dysgwyr yn eu hwynebu a'r math o bethau sydd yn aml iawn yn gwneud i ddisgwyr roi'r ffidil yn y to.

Yn dilyn hyn, cafwyd cyflwyniad ar sut i fynd ati i gynnal gwrs Gymraeg gan Melfyn Hughes, un o'n Addysgladwyr, sydd hefyd yn gweithio fel Twtor Cymraeg i Oedolion yn ei amser rhydd.

Y gobaith nawr yw bod pob un o'n hyrwyddwyr yn frwdrydig ac yn barod i gynnal y momentwm o ran hybu'r Gymraeg yn y Gwethlle.



Rhag of nad ydych yn ymwybodol o'r hyrwyddwyr yn eich ardal chi, dyma restr ohonynt:

Ynys Môn

Gareth Williams (Y Wyifa Las, Caerdybi)
Jane Honey
John A Williams

Gwynedd

Terry Williams
Carl W Tucker
David Roberts (Dolgellau)
Alun Guest Rowlands
Ceri A Hughes
Edryd Williams (Pwllhell)

Conwy

Jason Jones (Cerrig.)
James Roberts (Cerrig.)
David Lawson (Conwy)
David Roberts (Llanrwst)
Emyr Parry (Llandudno)

Sir Ddinbych

Carys Davies
Deri Cottle
Melfyn Hughes
Bethan Williams (Addysgladwr, Rhyf)

Katy Welch
Siân Vaughan
Rhianon Smith
Amanda Venables
(Tim Lleihau Tanau Bwriadol)
James Roberts
Gareth Wyn Thomas (Y Wyifa Goch, Rhyf)
Eleri Pilson
Osian Hywel

Sir y Fflint

Arron Jones
(Y Wyifa Goch, Glannau Dyfrdwy)
Ian Torr
(Y Wyifa Werdd, Glannau Dyfrdwy)

Wrecsam

Aeron Pritchard (Y Wyifa Wen, Wrecsam)
Melville Jones (Y Wyifa Las, Wrecsam)
Jason Jones

Ac yn olaf, llongyfarchiadau mawr i bawb sydd wedi llwyddo yn eu hasesiadau Cymraeg yn ddiweddar.

← TUDALEN FLAENOROLYN ÔL I'R CYCHWYNENGLISH CYMRAEGTUDALEN NESAF →

Cyngor Pob Pythefnos:

AT SYLW: HYRWYDDWYR YR IAITH GYMRAEG / FAO: WELSH LANGUAGE CHAMPIONS

Annwyl bawb

Mae'r daflen waith yma yn canolbwyntio ar gael y dysgwyr i ddweud stori drwy edrych ar y lluniau ar y daflen. Mae'n ffordd o'u hannog i chwilota am y gair cywir o blith eu geirfa. Mae hefyd tasg gyfieithu ar y daflen sydd yn sôn am fynd ar wyliau.

Gobeithio y bydd yn ddefnyddiol i chi. Fel arfer, mae copi o'r daflen waith wedi cael ei llwytho ar y fewnwyd (Eraill/Yr Iaith Gymraeg/Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg/Cyngor pob pythefnos). Mae'r rhain hefyd ar gael i ddisgwyr ar y fewnwyd dan Eraill/Yr Iaith Gymraeg /Gwybodaeth i Ddysgwyr.

Cofiwch anfon eich adroddiadau misol ataf. Y mae hefyd groeso i chwi gysylltu â mi i drafod unrhyw beth ym maes y Gymraeg ar 01745 535284 neu nici.sion@gwastan-gogcymru.org.uk.

Dear all

This week's work sheet concentrates on storytelling by looking on the images on the sheet. This is a great way for learners to search their vocabulary for the right word. There is also a translation task that talks about going on holiday on the worksheet

I hope you'll find this useful. As usual all these ideas have been uploaded onto the intranet (Other/The Welsh Language/Welsh Language Champions). They are also accessible to learners on the intranet under Other/The Welsh Language/The Welsh Language/Information for learners.

Keep sending me your monthly return forms. Should you need any advice regarding the Welsh language, please get in touch on 01745 535 284 or nici.sion@nwales-fireservic.org.uk

Hwyl í chí am y tro!

Níci

Nici Siôn
Cyfieithydd a Swyddog Cyswllt Iaith Gymraeg /
Translator and Welsh Language Liaison Officer

Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru/North Wales Fire
and Rescue Service HQ

nici.sion@nwales-fireservice.org.uk

nici.sion@gwastan-gogcymru.org.uk

Ffôn / Telephone: 01745 535284

Ffôn Symudol / Mobile Phone: 07787578405


Ffacs / Fax: 01745 535296

Taflen 52

DWEUD STORI
TELLING A STORY



Edrychwch ar y lluniau a dudwch y stori.
Look at the pictures and tell the story.





1. Mi aeth Moi ar wyliau i
2. Mi aeth o i weld y mynyddoedd a'r
3. Mi chwaraeodd o dennis ar y traeth a
4. Mi nofiodd o yn y môr ac mi orweddodd o yn yr haul.
5. Mi fwytodd o lawer o
6. Mi dynnodd o luniau o
7. Mi anfonodd o gerdyn post adre i'r teulu.
8. Mi fwytodd o hufen-iâ bob dydd.
9. Mi siopodd o ac mi brynodd o
10. Mi aeth o i barti neu ddisgo bob nos.
11. Mi brynodd o anrheg i'r teulu.
12. Mi aeth o adre ar ôl cael gwyliau bendigedig.

Cyfieithwch:

Translate:



1. *Moi went on holiday to*
2. *He went to see the mountains and*
3. *He played tennis on the beach and*
4. *He swam in the sea and he lay in the sun.*
5. *He ate a lot of*
6. *He took pictures of*
7. *He sent a postcard home to the family.*
8. *He ate ice-cream every day.*
9. *He shopped and bought*
10. *He went to a party or disco every night.*
11. *He bought a present for the family.*
12. *He went home after having a fantastic holiday.*

Rwan, dudwch stori am chwaer Moi.

Now, tell a story about Moi's sister.

Mercher 'Marfer:

Neges ddwyieithog / Bilingual Message

Mercher 'Marfer fory - ymgyrch i godi proffil gallu defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae'n ddydd Mercher cyntaf mis Ebrill. Dyma ychydig o syniadau i'ch helpu i wneud ymdrech i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gweithle - yn ogystal ag adre'.

Cysgliad

Mae meddalwedd Cysgliad yn arf hanfodol i unrhyw un sydd yn dymuno ysgrifennu yn Gymraeg. Mae Cysill yn wirydd sillafu a gramadeg yn ogystal â thesawrws tra bod Cysgeir yn eiriadur Cymraeg-Saesneg / Saesneg-Cymraeg.

Efallai eich bod yn defnyddio Cysgliad yn barod ond wedi syrffedu ar orfod copïo a phastio dogfennau o Word i Cysill er mwyn eu gwirio? Wyddoch chi fod modd ychwanegu Cysill a Cysgeir i'ch bar offer (toolbar)?



Sut i roi Cysill a Cysgeir ar eich bar offer:

- 1) Caewch Word
- 2) Agorwch Cysill/Cysgeir sydd wedi eu lleoli ar eich bwrdd gwaith (desktop)
- 3) Ewch i Ffeil – Gosod – ac yna dewiswch Gosod Bar Offer Word
- 4) Diffoddwch eich cyfrifiadur. Bydd y feddalwedd yn ymddangos y tro nesaf i chi droi'r cyfrifiadur ymlaen ac agor Word
- 5) I wirio dogfen neu chwilio am air cliciwch ar yr iconau Cysill/Cysgliad a bydd y feddalwedd yn ymddangos

Gwefan Y Bont

Mae'r Uned Cymraeg i Oedolion wedi creu gwefan ddefnyddiol iawn i Ddysgwyr a Thiworiaid. Ewch i <http://www.ybont.org/> i gael golwg arni.



Her y mis i Siaradwyr Cymraeg

Fel rheol byddaf yn gofyn i chi ymarfer frawddeg neu ymadrodd gyda dysgwyr bob mis, ond o hyn ymlaen byddaf yn gosod heriau i'ch annog i ddefnyddio'ch Cymraeg o ddydd i ddydd.

Her mis Ebrill:

Wrth dalu am betrol/disel yn y garej dywedwch rif y pwmp yn Gymraeg e.e. Pwmp Dau os gwelwch yn dda.

Tybed faint ohonom all atal ein hunain rhag troi i'r Saesneg?

It's Welsh Wednesday today – a campaign to raise the profile of being able to use Welsh in the workplace.

It's the first Wednesday of April and here's a little encouragement for you to make an extra effort to use more Welsh at work – as well as at home.

Cysgliad

The Cysgliad software is a useful tool for those of you who wish to write in Welsh. The Cysgliad software includes both the Cysill and Cysgeir. Cysill checks spelling and grammar and also includes a thesaurus whilst Cysgeir is an English-Welsh/ Welsh-English dictionary.

You may already use Cysglid and may be familiar with the tedious work of copying and pasting documents into Cysill to be checked. But do you know that both Cysill and Cysgeir can be placed on your Word toolbar for ease of use?



Installing Cysill and Cysgeir onto your toolbar:

- 1) Close Word
- 2) Open Cysill/Cysgeir – located on your desktop
- 3) Go to File – Install– Intall Word Toolbar
- 4) Shut down your computer. The software will appear the next time you open Word.
- 5) To check a document or look up a word click on the Cysill/Cysgliad icon on your toolbar and the software will open automatically

Y Bont

The Welsh for Adults Centre has created a very useful website for Learners and Tutors. Go to <http://www.ybont.org/>



Welsh Challenge

For those of you who are learning Welsh why not practice by taking part in the Welsh challenge that I have set for fluent speakers above.

When buying petrol/diesel say the number of the pump in Welsh.

The Welsh word for Pump is Pwmp e.e. Pwmp Un plŷ

Un, Dau, Tri, Pedwar, Pump, Chwech, Saith, Wyth, Naw, Deg
1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

Phrase of the month

And lastly, a conversation starter

Why not ask colleagues if they had a nice Easter: "Gawsoch chi Basg Hapus?"

Hwyl fawr a dalwch ati i ddysgu

Nici

This is a bilingual message. Please scroll down for English version.

Mercher 'Marfer eto yfory - ymgyrch i godi proffil gallu defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae'n ddydd Mercher cyntaf mis Medi ac unwaith eto dyma ychydig o syniadau i'ch helpu i wneud ymdrech i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gweithle - yn ogystal ag adre'.

Ymgyrch newydd gan S4C i annog rhieni i siarad Cymraeg



Gyda'r plant yn ôl yn yr ysgol yr wythnos hon mae'n bwysig gwneud ymdrech i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n rheolaidd ar yr aelwyd. Gyda chymaint o blant yn derbyn addysg gyfrwng Gymraeg yn ein rhanbarth ni mae'n hanfodol nad ydynt yn cael eu rhwystro gan iaith yn yr ysgol.

Ydych chi'n ei chael hi'n anodd siarad Cymraeg gyda'ch plentyn? Neu a ydych chi'n ei chael hi'n anodd dilyn rhaglenni Cymraeg gyda'ch plentyn? Os felly, bydd Ti, Fi a Cyw, adnodd newydd a lanswyd gan sianel feithrin S4C ar 1 Medi, yn ôl adnodd delfrydol i chi a'ch teulu.

Yn ôl ystadegau a gasglwyd gan S4C, mae bron i hanner y rhieni sy'n gwylio Cyw gyda'u plant yn rhieni di-Gymraeg. Mae'r sianel felly wedi meddwl am ffordd arloesol o fynd ati i ymgysylltu â'r rhieni hyn. Ers 1 Medi mae rhieni wedi cael cyfle i wyllo rhaglenni Cyw a chael cyfieithiadau, awgrymiadau ac eglurhad byw ar ffrwd twitter yn syth i'w cyfrifiaduron, gliniaduron, ffonau deallus neu dabledi.

Am ragor o wybodaeth cliciwch [yma](#).

Ymadrodd y Mis

Pam na rowch chi gynnig ar y frawddeg hon gyda dysgwyr dros yr wythnosau nesaf - "Gobeithio y cawn ni haf bach Mihangel"

It's Welsh Wednesday again tomorrow – a campaign to raise the profile of being able to use Welsh in the workplace.

It's the first Wednesday of September and here's a little encouragement again for you to make an extra effort to use more Welsh at work – as well as at home.

New initiative by S4C that encourages parents to speak Welsh



With children returning to school this week it's important to make a real effort to ensure that Welsh becomes an intrinsic part of home life. So many of the children in our region receive a Welsh medium education and therefore it's vital that language does not become an obstacle for them in school.

Do find it hard speaking Welsh with your child? Or do you find it hard to follow Welsh language programmes with your child? If so, Ti, Fi a Cyw, a new resource provided by S4C's nursery channel which was launched 1 September, will be a valuable resource for you and your family.

According to statistics provided by S4C, nearly half of the parents who watch Cyw with their children are non-Welsh speakers. The channel has therefore come up with an innovative way to engage with parents. From 1 September parents will be able to watch Cyw programmes whilst receiving live twitter feeds with explanations, suggestions and translations to their computer, laptop, smart phone or tablet.

Click [here](#) for more information.

Phrase of the month

Why not give this phrase a go over the next few weeks: "Gobeithio y cawn ni haf bach Mihangel"?" (Let's hope we'll have an Indian Summer)

*Hwyl fawr a daliwch ati i ddysgu
Nici*

Atodiad 3 – Ffurflen Adrodd yr Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

“Ar dân dros y Gymraeg”

Ffurflen adrodd ar gyfer Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg

- Dylid cwblhau'r ffurflen hon a'i hanfon yn ôl pob chwarter i nici.sion@gwastan-gogcymru.org.uk. Os gwelwch yn dda, nodwch yr holl weithgareddau yr ydych wedi eu cwblhau a pha mor aml. Os nad ydych wedi cwblhau gweithgaredd benodol gadewch yr adran honno'n wag.
- Dylech gwblhau o leiaf 5 o'r 10 gweithgaredd a restrir er mwyn bod yn gymwys i dderbyn y lwfans chwarterel o hyd at £250 y flwyddyn a delir i Hyrddwyr Iaith Gymraeg – efallai na fydd rhai o'r gweithgareddau'n berthnasol i chi ond dylai'r rhai sydd wedi eu nodi gyda * fod yn berthnasol i bob hyrwyddwr.
- Telir y lwfans pob chwarter o Ebrill 2013 ymlaen – dylid cwblhau'r ffurflenni erbyn diwedd mis Mawrth, Mehefin, Medi a Rhagfyr a byddwch yn derbyn y taliad y mis canlynol.

- Mae canllawiau ar rôl yr Hyrwyddwr yn ogystal â syniadau ar sut i fynd ati i hybu'r Gymraeg a chynnal gwersi ar gael ar y fewnwyd (ewch i Eraill/Yr Iaith Gymraeg / Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg)

Enw: Rhif Gwasanaeth Tân: Dyddiad:	Unwaith neu ddwy	Unwaith y mis	Bob wythnos am gyfnod	Arall
Gweithgaredd				
1. * Cynorthwyo aelod staff i baratoi ar gyfer asesiadau Cymraeg lefelau 1-5 – nodwch pa mor aml, canlyniad y prawf, ac enw'r unigolyn a safodd y prawf. (Cysylltwch â Nici Siôn neu Janina Smith i gael gwybod am aelodau staff sydd wedi gofyn am gymorth gyda'r profion)				
2. * Codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn y gweithle –ee sicrhau bod yr holl arwyddion yn ddwyieithog, sicrhau bod hysbysfyrddau'n ddwyieithog, helpu staff gyda ebyst Cymraeg ayyb. Nodwch pa gamau a gymerwyd a pha mor aml.				
3. * Siarad Cymraeg yn rheolaidd gyda chydweithwyr, eu helpu i ynganu geiriau'n gywir, ymarfer geirfa a chyfieithu. Nodwch pa gamau a gymerwyd a pha mor aml.				
4. Helpu gyda gwaith recriwtio unigolion – ee diwrnodau agored neu gyfweiliadau. Nodwch sut y gwnaethoch chi helpu a pha mor aml.				

5. * Rhannu gwybodaeth am yr iaith Gymraeg gyda staff y Gwasanaeth ee Mercher 'Marfer, syniadau ar sut i hybu'r Gymraeg. Nodwch pa gamau a gymerwyd a pha mor aml.				
6. * Cadw mewn cysylltiad â dysgwyr yn rheolaidd, eu helpu i wella eu Cymraeg a symud ymlaen i'r lefel nesaf. Nodwch pa gamau a gymerwyd a pha mor aml.				
7. * Cymryd rhan mewn digwyddiadau'n ymwneud â'r Gymraeg ee y seminar blynyddol i Hyrwyddwyr neu fentrau mewnol neu allanol eraill. Nodwch pa gamau a gymerwyd a pha mor aml.				
8. * Rhoi'r diweddaraaf am sgiliau Cymraeg i aelodau staff yn fy ardal, gan roi cymorth a chyfarwyddyd. Nodwch pa gamau a gymerwyd a pha mor aml.				
9. Cynnal prawf lefel 1-5 i aelod staff sydd wedi defnyddio rhaglen CD y Gwasanaeth. Nodwch pa mor aml, y canlyniad ac enw'r unigolyn.				
10. Unrhyw weithgaredd arall sydd heb ei restru uchod – rhowch fanylion a nodwch pa mor aml.				
